PRIF GWNSTABL
HEDDLU DE CYMRU
(Corfforaeth Undyn)

DATGANIAD O GYFRIFON
AR GYFER
Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

Umar Hussain MBE, BA(Anrh), FCCA, PRIF SWYDDOG ARIANNOL y PRIF GWNSTABL

Cynnwys	Rhif Tudalen
Adroddiad Naratif	3
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	13
Datganiad o Gyfrifon	
• Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Cyfrifon	17
• Prif Ddatganiadau (ar gyfer Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru)	19
• Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	19
• Mantolen	20
• Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu	21
• Rhestr Cynnwys Nodiadau i'r Cyfrifon	22
• Rhestr Termau	44

ADRODDIAD NARATIF

Cyflwyniad

Diben y Datganiad o Gyfrifon yw darparu gwybodaeth am sefyllfa ariannol, perfformiad, rheolaeth, atebolrwydd o ran adnoddau, risgiau ac ansicrwydd Prif Gwnstabl De Cymru sy'n ddefnyddiol i ystod eang o ddefnyddwyr. Gall defnyddwyr y datganiadau ariannol gynnwys y cyhoedd, llywodraeth, cyrff dyfarnu grantiau, cyflogeion, cwsmeriaid, cyflenwyr a chontractwyr y Comisiynydd.

Blwyddyn ariannol 2018/19 oedd wythfed blwyddyn olynol rhaglen gyni'r llywodraeth a ddeilliodd o adolygiad cynhwysfawr o wariant 2010, a geisiodd ymdrin â'r diffyg yn y gyllideb genedlaethol oherwydd yr argyfwng bancio rhyngwladol.

Dogfennir atebolrwydd o ran adnoddau cyhoeddus yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel Corfforaethau Undyn. Manylir ar yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n cyd-fynd â'r Datganiad o Gyfrifon.

Fframwaith Statudol ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon

Mae sefydlu'r ddwy Gorfforaeth Undyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill gorff a'r llall lunio ei Ddatganiad o Gyfrifon ei hun gyda'r Comisiynydd yn llunio Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y Grŵp a Chronfa Bensiwn yr Heddlu.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Llywodraeth Leol baratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Nodir bod y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y DU yn cynrychioli arferion priodol.

Mae'r Cod yn gymwys i Gyrff Llywodraeth Leol a nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 y mae angen iddynt baratoi cyfrifon i'w harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cafodd adran 12 o'r Ddeddf hon ei diwygio gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol er mwyn cyfeirio at Gomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid yn lle Awdurdodau'r Heddlu.

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â Fframwaith y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) ar gyfer Paratoi a Chyflwyno Datganiadau Ariannol (Fframwaith IASB) fel y'i dehonglir gan y Cod. Rhydd Fframwaith IASB y cysyniadau sy'n sail i baratoi a chyflwyno datganiadau ariannol ar gyfer defnyddwyr allanol y cyfrifon. Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn parhau i ddilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Fformat y Datganiad o Gyfrifon

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o Gyfrifoldebau
  Noda gyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Ariannol mewn perthynas â llunio a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

- Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
  Rhydd hwn gost darparu gwasanaethau plismona yn ystod y flwyddyn yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) yn hytrach na'r swm a ariannwyd o Grantiau'r Llywodraeth a'r Dreth Gyngor.

- Mantolen
  Mae'r fantolen yn nodi'r asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2019.

- Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu

Mae'r cyfrif hwn yn nodi'r incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â Phensiynau Swyddogion yr Heddlu, fel taliadau pensiwn misol a chyfandaliadau ymddeol.

- Nodiadau i'r Cyfrifon
  Mae'r nodiadau hyn yn rhoi gwybodaeth fanylach am eitemau incwm, gwariant, asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn nad yw'n ymarferol eu dangos yn y prif ddatganiadau cyfrifyddu a nodir uchod.

Egluro'r Prif Ddatganiadau - gan gynnwys trosglwyddo cyllid o fewn y grŵp

Mae'r adran hon yn egluro'r hyn sy'n ofynnol o ran cyllid o fewn y grŵp rhwng y corfforaethau undyn - y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Canolbwyntia ar y prif elfennau a rhoddir rhagor o wybodaeth yn y Polisïau Cyfrifyddu.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Caiff incwm a grantiau eu credydu i Gronfa'r Heddlu o dan gyfrifoldeb y Comisiynydd ac fe'u hystyrir wrth drosglwyddo o fewn y grŵp i'r Prif Gwnstabl er mwyn ariannu gwariant.

Yn yr un modd, caiff pob cronfa wrth gefn ddefnyddiadwy ei dal gan y Comisiynydd ar gyfer dyraniadau yn y dyfodol.

Caiff yr holl gronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy/ diffygion ariannol eu dal gan y Comisiynydd gan nad yw deddfwriaeth na rheoliadau llywodraethol penodol ar gyfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn gymwys i'r Prif Gwnstabl ar hyn o bryd (Mae angen eithriadau ar gyfer diffygion pensiwn a dibrisiant asedau cyfalaf ac addasiadau lleihad mewn gwerth, y mae'r olaf yn cael ei ariannu eisoes gan grantiau a threth leol ond, er hynny, mae eu hangen o dan egwyddorion cyfrifyddu priodol fel y'u diffinnir gan y Cod).

Rhoddir cyfrif am wariant ar sail 'cyfarwyddyd a rheolaeth' gan fod y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd yn mynd i gostau h.y.

- Codir gwariant ar gyflogau swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu, ac eithrio'r rhai sy'n aelodau o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ar y Prif Gwnstabl.
- Yn yr un modd, codir costau pensiwn a buddiannau ymddeol yn y dyfodol ar gyfer swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu ar yr un sail.
- Codir costau nad ydynt yn ymwneud â chyflog, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â Thîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ar y Prif Gwnstabl.
- Codir symiau dibrisio asedau ar y Comisiynydd ar sail dybiannol, yn ôl perchenogaeth, a'u hailgodi ar y Prif Gwnstabl ar gyfer yr asedau a ddefnyddiwyd, a ystyrir wrth drosglwyddo o fewn y grŵp.

Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn

Nid yw'r cyfrif hwn yn gymwys gan nad oes unrhyw falansau perthnasol y mae angen rhoi cyfrif amdanynt. Mae'r (gwarged)/diffyg ar ddarparu gwasanaethau a gwariant cynhwysfawr arall yn glir i Ddim drwy drosglwyddiad o fewn y grŵp i Gyfrif Cronfa Heddlu'r Comisiynydd. (Nid oes unrhyw falansau ar Addasiadau i Gronfeydd Wrth Gefn nac Addasiadau Cyfrifyddu).

Llif Arian Parod

Nid yw'r cyfrif hwn yn gymwys gan nad oes unrhyw falansau perthnasol y mae angen rhoi cyfrif amdanynt. Delir cyfrifon banc gan y Comisiynydd ac fe'u gweithredir ar sail Grŵp.

ADRODDIAD NARATIF

Mantolen

Nid oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw gronfeydd wrth gefn nac asedau hirdymor y mae angen rhoi cyfrif amdanynt. Cyfrifoldeb y Comisiynydd yw'r rhain. Mae asedau net yn glir i ddim drwy ddyledwr o fewn y grŵp ar gyfer cyfalaf gweithio i fodloni credydwyr byrdymor, rhestrau eiddo a Rhwymedigaethau Pensiwn hirdymor.

Perfformiad Ariannol y Prif Gwnstabl

Ym mis Ionawr 2019, cymeradwywyd cyllideb refeniw net o £271.0m ar gyfer 2018/19 er mwyn ariannu ymrwymiadau gwariant cyfredol. At hynny, arweiniodd £1.0m pellach o wariant cyfalaf (a ariannwyd gan Grant y Llywodraeth) at gyfanswm gofyniad cyllidebol o £272.0m. Mae'r tabl isod yn nodi sut y cafodd y swm hwn ei wario a'i ariannu yn ystod y flwyddyn.

	2018/19 %	2018/19 £M	2017/18 £M
Costau Swyddogion a Staff yr Heddlu	39%	199.8	197.5
Buddiannau Ymddeol Pensiynau – costau gwasanaeth	15%	77.2	73.8
Costau nad ydynt yn ymwneud â Chyflogau (Eiddo,	12%	58.6	51.1
Costau gwasanaeth eraill (Dibrisiant, Gwariant cyfalaf nad	34%	171.7	15.1
Gwariant Gros ar Wasanaethau	**100%**	**507.4**	**337.5**
Llai Grantiau ac Incwm		(43.3)	(41.8)
Costau Net Gwasanaethau'r Heddlu		**464.1**	**295.7**
Addasiadau Cyfrifyddu (Pensiynau, Dibrisiant, Symudiadau ar		(192.0)	(30.7)
Gofyniad Cyllidebol		**272.0**	**265.0**
Grantiau Cyfalaf y Llywodraeth	0%	(1.0)	(2.1)
Incwm o'r Dreth Gyngor	42%	(113.6)	(105.5)
Incwm Ardrethi Annomestig (Llywodraeth Cymru)	8%	(22.2)	(22.3)
Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru)	19%	(52.4)	(51.1)
Grantiau'r Heddlu (y Swyddfa Gartref)	30%	(82.8)	(84.0)
Cyfanswm Cyllid	**100%**	**(272.0)**	**(265.0)**

Gellir priodoli'r mwyafrif o'r gyllideb gros i Wasanaethau Plismona o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl ac mae'n gyfartal â chyllideb Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu llai'r gost o weinyddu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Dylid nodi na ellir priodoli unrhyw gyllidebau incwm i'r Prif Gwnstabl gan fod yr holl incwm yn cael ei gofnodi yn Natganiad o Gyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Datganiad o Gyfrifon Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Rhwymedigaeth Pensiynau

Dyfarniad McCloud / Sargeant

Mae Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill a'r Swyddfa Gartref, yn wynebu llawer o hawliadau a gyflwynwyd yn eu herbyn yn Nhribiwnlys Cyflogaeth Llundain Ganolog. Mae'r hawliadau yn ymwneud â gwahaniaethu anghyfreithlon honedig sy'n codi o'r Darpariaethau Trosiannol yn Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015.

ADRODDIAD NARATIF

Mae hawliadau gwahaniaethu anghyfreithlon hefyd wedi'u cyflwyno mewn perthynas â'r newidiadau i reoliadau Pensiwn y Farnwriaeth a Diffoddwyr Tân ac ym mis Rhagfyr 2018 dyfarnodd y Llys Apêl (McCloud/Sargeant) fod yr 'amddiffyniad trosiannol' a gynigiwyd i rai aelodau fel rhan o'r diwygiadau i bensiynau sector cyhoeddus yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon. Ar 27 Mehefin, gwrthododd y Goruchaf Lys hawl i apelio mewn perthynas ag achos McCloud. Yn sgil hyn, rhagwelir y bydd y Llys yn mynnu bod newidiadau'n cael eu gwneud i drefniadau ar gyfer cyflogeion a gafodd eu trosglwyddo i'r cynlluniau newydd, gan gynnwys aelodau o Gynllun Pensiwn yr Heddlu o bosibl. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn yr Heddlu ac mae ein hactiwarïaid (Adran Actiwari'r Llywodraeth), gan ddefnyddio tybiaethau penodol a'u cymhwyso i gynllun yr Heddlu yn gyffredinol, wedi amcangyfrif y gallai'r cynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun i Heddlu De Cymru gyfateb i tua 4.4% neu £151.09m o rwymedigaethau'r cynllun pensiwn. Caiff y cynnydd hwn ei gynnwys yn y datganiadau ariannol Cost Gwasanaeth a Roddwyd. Gellir gweld hyn yn natgeliadau IAS 19 yn Nodyn 13 i'r datganiadau ariannol yn ogystal â'r Fantolen. Mae'r actiwarïaid wedi pwysleisio bod yr amcangyfrif hwn yn seiliedig ar un rhwymedi posibl, effaith bosibl unrhyw wahaniaeth ym mhroffil aelodau'r heddlu o gymharu â'r cynllun yn gyffredinol a bod y ffigurau'n sensitif iawn i dybiaethau ynghylch twf enillion byrdymor.

Caiff effaith unrhyw gynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun sy'n deillio o ddyfarniad McCloud/Sargeant ei mesur drwy'r broses prisio pensiynau, sy'n pennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai. Cynhelir yr ymarfer prisio nesaf mewn perthynas â Phensiwn yr Heddlu yn 2020 a bwriedir gweithredu ar y canlyniadau yn 2023/24 a bydd angen i heddluoedd gynllunio ar gyfer effaith hyn ar gyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr ynghyd â newidiadau eraill a nodir yn ystod y broses brisio.

Caiff effaith unrhyw gynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n deillio o ddyfarniad McCloud / Sargeant ei phennu drwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. O dan y Rheoliadau hyn, mae'n rhaid i awdurdod yr heddlu gynnal cronfa bensiwn y caiff cyfraniadau'r swyddogion a'r cyflogwr eu talu i mewn iddi ac a gaiff ei defnyddio i wneud taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad oes digon o arian yng nghronfa bensiwn yr heddlu i dalu costau pensiynau yn ystod y flwyddyn, yna bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn talu'r swm sy'n ddyledus i awdurdod yr heddlu ar ffurf grant ychwanegol gan y llywodraeth ganolog.

Rhagwelir hefyd y bydd penderfyniad y Llys yn effeithio ar gyflogeion a gafodd eu trosglwyddo i gynlluniau newydd o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac ar sail gwybodaeth actiwaraidd, gan ddefnyddio tybiaethau penodol a'u cymhwyso i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd yr Heddlu yn wynebu cynnydd o £7.08m yn rhwymedigaethau'r cynllun. Caiff y cynnydd hwn ei gynnwys yn y datganiadau ariannol fel Cost Gwasanaeth a Roddwyd. Gellir gweld hyn yn natgeliadau IAS 19 yn Nodyn 13 i'r datganiadau ariannol yn ogystal â'r Fantolen. Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar un rhwymedi posibl, effaith bosibl unrhyw wahaniaeth ym mhroffil aelodau'r heddlu o gymharu â'r cynllun yn gyffredinol a'r ffaith bod y ffigurau'n sensitif iawn i dybiaethau ynghylch twf enillion byrdymor. Caiff effaith unrhyw gynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun sy'n deillio o ddyfarniad McCloud/Sargeant ei mesur drwy'r broses prisio pensiynau, sy'n pennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai.'

Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn cyfrifo'r rhwymedigaeth bosibl sy'n gysylltiedig â chynlluniau'r Heddlu yn seiliedig ar adolygiad Actiwaraidd, gan ddefnyddio data Pensiynau a'r Gyflogres. Gwelwyd cynnydd o £3,280m i £3,585m yn y rhwymedigaeth amcangyfrifedig hon yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd o 9.30%. Priodolwyd hyn yn bennaf i ddyfarniad McCloud yn ogystal â newidiadau eraill mewn rhagdybiaethau actiwaraidd. Mae Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu yn gynllun heb ei ariannu.

ADRODDIAD NARATIF

Yn achos Staff yr Heddlu, mae Heddlu De Cymru yn gorff sydd wedi cael ei dderbyn i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd lleihad yn asesiad yr Actiwari o gyfran Heddlu De Cymru o ddiffyg amcangyfrifedig y cynllun hwn o £141.6m i £138.3m ar 31 Mawrth 2019, sef gostyngiad o 2.33%. Er bod hwn yn ostyngiad, sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd, mae'n cynnwys effaith dyfarniad McCloud.

Nid yw'r colledion na'r enillion net nas gwireddwyd ar gyfer y flwyddyn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar gost gwasanaethau yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr a dim ond yn y fantolen y caiff y rhwymedigaeth dybiannol ei nodi.

Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

Nid yw cyllid canolog wedi aros yn gyson â chostau cynyddol a gofynion newidiol. Mae'r mesurau llym a roddwyd ar waith i ddelio â'r heriau ariannol yn sgil adolygiad cynhwysfawr o wariant 2010, fel y'i hamlinellir yng Nghynllun Gwerth am Arian y Comisiynydd, ynghyd â rheolaeth ariannol ddarbodus barhaus, wedi sicrhau arbedion pellach o £51.2m, sef y swm yr oedd angen ei arbed yn sgil y toriadau i grantiau'r heddlu a nodwyd yn adolygiad cynhwysfawr o wariant 2010. Dangosir hyn yn y tabl canlynol:

Fodd bynnag, disgwylir i'r rhaglen gyni cyllidol barhau a rhagwelir y bydd angen sicrhau arbedion refeniw pellach o £13.4m rhwng 2020/21 a 2022/23. Mae Heddlu De Cymru wedi llunio strategaeth tymor canolig gynhwysfawr i sicrhau'r arbedion sy'n diogelu gwasanaethau rheng flaen.

PERFFORMIAD GWEITHREDOL

Troseddau a Gofnodwyd

Ar ddiwedd 2018/19, roedd cynnydd o 6.5% yn nifer y troseddau a gofnodwyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.



ADRODDIAD NARATIF

Perfformiad Heddlu De Cymru



Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif

Atebwyd 89.6% o alwadau 999 o fewn 10 eiliad, sydd 0.4% islaw'r targed cenedlaethol. Yn gyffredinol, atebwyd 99.4% o alwadau 999, sydd 1.4% uwchlaw'r targed cenedlaethol.

Atebwyd 51.6% o alwadau nad oeddent yn alwadau brys o fewn 40 eiliad ac atebwyd 85.9% ohonynt.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Cofnododd Heddlu De Cymru 1,855 o droseddau casineb yn 2018/19, o gymharu â 1,766 yn 2017/18.

Ansawdd Gwasanaeth

Yn ystod 2018-19, cofnodwyd 94.2% o'r troseddau y cafodd Heddlu De Cymru wybod amdanynt o fewn 24 awr.

Cofnododd Heddlu De Cymru gyfradd canlyniadau cadarnhaol o 19.6% ar gyfer troseddau yn gyffredinol yn 2018/19, o gymharu â 22.4% yn 2017/18.

Cafwyd gwybod am 6,766 o fwrgleriaethau yn 2018/19, sy'n llai na 2017/18.

RHAGLEN EFFEITHIOLRWYDD, EFFEITHLONRWYDD A CHYFREITHLONDEB YR HEDDLU (PEEL)

Gellir crynhoi asesiad PEEL (effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a dilysrwydd yr heddlu) diweddaraf Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS), sef Asesiad 2017, o'r modd y mae Heddlu De Cymru yn cadw pobl yn ddiogel ac yn lleihau troseddau fel a ganlyn:

ADRODDIAD NARATIF

Datganiad o ddyfarniadau colofn

- Mae effeithiolrwydd Heddlu De Cymru o ran cadw pobl yn ddiogel a gostwng troseddu yn **dda**.
- Mae effeithlonrwydd Heddlu De Cymru o ran cadw pobl yn ddiogel a gostwng troseddu yn **dda**.
- Mae dilysrwydd Heddlu De Cymru o ran cadw pobl yn ddiogel a gostwng troseddu yn **dda**.

Sylwadau AEM

- Rwy'n fodlon ar berfformiad Heddlu De Cymru o ran cadw pobl yn ddiogel a gostwng troseddu;
- Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth gynhwysfawr o beth yw bod yn agored i niwed ac mae'n ymateb yn dda i ddioddefwyr, gan ddangos dull cyson tuag at ddiogelu. Mae'r heddlu yn ymchwilio i droseddau sy'n ymwneud â dioddefwyr sy'n agored i niwed yn dda, gan weithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus;
- Mae'r heddlu wedi gwneud ymdrech fawr i wella cywirdeb y ffordd y mae'n cofnodi troseddau ac mae wedi ymrwymo i brosesau cofnodi moesegol sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, heb ystyried pwysau perfformiad;
- Mae'r heddlu'n parhau i adeiladu ar ei ddealltwriaeth o alw presennol ac yn y dyfodol, ac mae ganddo gofnod cynhwysfawr o sgiliau gweithredol ei swyddogion a'i staff.
  Mae ganddo gynlluniau buddsoddi cadarn sydd wedi'u hanelu at wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo;
- Mae diwylliant moesegol da yn yr heddlu lle mae arweinwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trin pobl gyda thegwch a pharch. Fodd bynnag, mae angen iddo wella agweddau ar ei weithdrefn gwyno a sicrhau ei fod yn cyfeirio achosion perthnasol at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu;
- Yn gyffredinol, mae Heddlu De Cymru wedi atgyfnerthu ei safon o berfformiad da ers asesiad y llynedd.

ADRODDIAD NARATIF

DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL

Arweiniodd yr argyfwng economaidd byd-eang at ddiffyg cyllidebol blynyddol o £149 biliwn yn y DU ar ddechrau 2010 ac mae addewid llywodraeth y DU i fantoli'r gyllideb wedi cael effaith negyddol ddigynsail ar blismona gan fod y Swyddfa Gartref ymhlith yr adrannau na chawsant eu hamddiffyn. Arweiniodd hyn at y gostyngiad unigol mwyaf yng nghyllid llywodraeth ganolog ar gyfer plismona mewn cenhedlaeth.

Nid yw cylch cyllidebu 2019/20 yn cynnig unrhyw gyfle ychwanegol i dyfu. Dyma bedwaredd blwyddyn, a blwyddyn olaf, Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2015 sydd, fel cyfnodau Adolygiadau 2010 a 2013, wedi golygu arbedion effeithlonrwydd sylweddol a chyllidebau is. Rhagwelir y bydd y thema hon yn parhau am oes y Senedd hon drwy Adolygiadau dilynol. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cwblhau'r Adolygiad Cynhwysfawr nesaf o Wariant yn 2019 ac er bod achos cryf dros ddyrannu mwy o adnoddau i blismona, ar hyn o bryd nid oes unrhyw sicrwydd ar gael ar ôl 2020 nac ynghylch sut y caiff adnoddau eu dyrannu. Mae'r sefyllfa economaidd genedlaethol yn awgrymu'n gryf y bydd dyraniadau arian gwastad yn parhau a thybiwyd hyn yn y rhagolygon ariannol tymor hwy.

Hefyd yn berthnasol i heriau ariannol yn y dyfodol bydd adolygiad y Swyddfa Gartref o Fformiwla Gyllido'r Heddlu a ddefnyddir i bennu cyfran y gyllideb blismona gyffredinol a roddir i Gomisiynwyr unigol. Cydnabyddir yn eang bod y fformiwla bresennol wedi dyddio, ei bod yn rhy gymhleth ac annelwig a bod angen ei hadolygu. Ni roddwyd mwy o wybodaeth yn y setliad dros dro ar gyfer 2019/20 a rhagdybir na fydd unrhyw newid yn y fformiwla yn cael effaith tan o leiaf 2021/22.

Gallai'r ansicrwydd ynghylch Brexit gael effaith sylweddol ar chwyddiant, cyfraddau llog a'r gyfradd cyfnewid. Gallai'r rhain i gyd gael effaith andwyol ar wariant a gyllidebwyd gan Heddlu De Cymru yn y dyfodol, wrth i brisiau rhai nwyddau y mae'r Heddlu yn dibynnu arnynt, a gaiff eu mewnforio ac y telir amdanynt mewn arian cyfred tramor, gynyddu.

Ar yr wyneb, mae'n ymddangos bod Setliad Dros Dro 2019/20 Llywodraeth y DU, sy'n rhoi £970M o arian ychwanegol i Wasanaeth yr Heddlu, yn llawer mwy ffafriol na pharhau ag arian gwastad yn bennaf o Grant Llywodraeth Ganolog. Fodd bynnag, mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cynnwys hyblygrwydd ychwanegol gwerth £507m i Gomisiynwyr mewn perthynas â'r dreth gyngor; grant pensiwn yr heddlu penodol o £153m; cynnydd chwyddiannol o 2.1%, sef £161m, drwy fformiwla ariannu'r grant llywodraeth ganolog; a £149m o gyllid cenedlaethol ychwanegol ar gyfer Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol a Gwrthderfysgaeth.

Er bod setliad 2019/20 yn well na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol, mae Heddlu De Cymru yn parhau i fabwysiadu dull pragmataidd o weithredu o ran rhaglen gyni Llywodraeth y DU ac mae wedi gwneud newid gwirioneddol i wella gwasanaethau a lleihau costau. Mae Heddlu De Cymru eisoes wedi sicrhau arbedion gwerth mwy na £51m mewn arian parod hyd yma ac mae rhagor o arbedion bellach yn gynyddol anos. Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019/20 yn cwmpasu'r cyfnod 2019/20 i 2022/2023 ac mae'n nodi bod angen sicrhau £7.2m o arbedion pellach yn 2019/20. Bydd hyn yn golygu bod cyfanswm yr arbedion arian parod a gyflawnwyd ac y mae angen eu cyflawni yn fwy na £58m.

ADRODDIAD NARATIF

Gan edrych ymhellach i'r dyfodol, mae'r cyfuniad o chwyddiant, pwysau costau ychwanegol na ellir eu hosgoi a buddsoddiad hanfodol mewn gwasanaethau yn cynyddu'r bwlch ariannu ymhellach. Erbyn 2022/23, rhagwelir y bydd bwlch ariannu cronnus o £137m, cyn arbedion a chynnydd mewn praeseptau, ac mae arbedion pellach o £13.4m rhwng 2020/21 a 2022/23 wedi'u targedu. Mae hyn yn her enfawr i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u timau. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cytuno ar y Genhadaeth (Cadw De Cymru yn Ddiogel) a'r Weledigaeth (bod y gorau ar ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau). Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu proses lywodraethu effeithiol i sicrhau gwelliannau parhaus o ran darparu gwasanaethau a rheoli ariannol cadarn. Caiff y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl eu hasesu'n annibynnol ar sicrhau gwerth am arian gan yr Arolygiaeth a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r ddau gorff wedi rhoi sicrwydd cadarnhaol ynglŷn â rheoli ariannol a gwerth am arian, gan gynnwys gwelliannau o ran cyflawni gweithredol.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gyson â'r Genhadaeth a'r Weledigaeth, gan gefnogi'r blaenoriaethau allweddol canlynol yng Nghynllun Lleihau Troseddu'r Comisiynydd a Chynllun Cyflawni Gweithredol y Prif Gwnstabl. Yn benodol, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ceisio:

- Cynnal momentwm cydweithredol er mwyn sicrhau arbedion eraill i Heddlu De Cymru a'i bartneriaid;
- Sicrhau seilwaith cynaliadwy, yn enwedig ystadau, cludiant a llwyfan technoleg er mwyn sicrhau enillion cynhyrchiant hirdymor. Mae strategaethau manwl, gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Asedau, yn sicrhau y caiff adnoddau eu darparu a'u defnyddio'n effeithiol;
- Sicrhau (o leiaf) bod cyllid buddsoddi digonol i ddarparu sylfaen eiddo ddiogel sy'n cydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch a gofynion deddfwriaethol eraill er mwyn cynnal effeithiolrwydd gweithredol;
- Cynnal pŵer prynu cyllidebau sylfaenol, yn enwedig ar gostau sefydlog neu gostau na ellir eu hosgoi (e.e. goramser, lwfansau, cyfleustodau, trwyddedau, contractau) er mwyn sicrhau bod cynlluniau ariannol yn realistig ac yn gyflawnadwy;
- Sicrhau bod cywirdeb rhwng y gyllideb a'r alldro gwirioneddol dros 99.5%;
- Sicrhau bod lefelau benthyca yn parhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy dros dymor y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Mae'r Gyllideb Flynyddol yn rhoi'r adnoddau sydd eu hangen ym mlwyddyn ariannol 2019/20 i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu, gan gynnwys:

- Gweithio gyda phartneriaid i leihau troseddau, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol tra'n ymdopi ag amrywiaeth eang o ofynion sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ystyrir yn "blismona" fel arfer;
- Cynnal y lefel bresennol o blismona yn y gymdogaeth ac ymgysylltu â chymunedau De Cymru;
- Diogelu pobl sy'n agored i niwed a lleihau'r tebygolrwydd o droseddu mynych mewn perthynas â throseddau megis troseddau casineb, trais yn erbyn menywod a merched, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, cam-drin domestig a throseddau ar-lein;
- Gweithio gyda phartneriaid i wella'r System Cyfiawnder Troseddol leol, yn enwedig mewn perthynas â rheoli troseddwyr a lleihau aildroseddu ymhlith pobl ifanc (o dan 18 oed) a'r rhai yn y grŵp 18 i 25 oed;
- Cyfrannu at y Gofyniad Plismona Strategol a diogelu'r cyhoedd yn Ne Cymru, gan ymateb yn realistig i'r bygythiadau oddi wrth droseddwyr cyfundrefnol a therfysgaeth a nodir a phlismona nifer cynyddol o ddigwyddiadau;

ADRODDIAD NARATIF

- Ymateb i her safonau sy'n newid ar gyfer hyfforddi swyddogion yr heddlu, a gynigiwyd gan y Coleg Plismona tra hefyd yn ceisio datblygu ein staff ar bob lefel i ymateb i'r heriau a wynebant a recriwtio pobl er mwyn sicrhau bod y gweithlu cyfan yn adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu plismona;
- Plismona Prifddinas Cymru.

Mae'n amlwg, er mwyn aros o fewn y cyfyngiadau ariannu a osodwyd, y bydd yn rhaid i Heddlu De Cymru ymdopi â gostyngiadau o hyd mewn termau real yn ei gyllid gan y llywodraeth drwy gydol y cyfnod cynllunio tymor canolig. Mae hyn yn golygu blaenoriaethu ymdrechion i sicrhau diwylliant o welliant parhaus gydag arweinyddiaeth sy'n cynnig y bobl gywir a'r sgiliau a'r adnoddau cywir yn y man cywir ac ar yr adeg gywir, erbyn 2023.

UMAR HUSSAIN

Prif Swyddog Ariannol Dyddiedig: 30 Mai 2019

UMAR HUSSAIN

Prif Swyddog Ariannol Dyddiedig: 29 Gorffennaf 2019

Troednodyn ynghylch llofnodi:
Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) ... (1) Rhaid i swyddog ariannol cyfrifol ... lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon ... (3) Rhaid i'r swyddog ariannol cyfrifol ail-ardystio cyflwyniad y datganiad o gyfrifon cyn i'r corff perthnasol ei gymeradwyo.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl De Cymru

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Prif Gwnstabl De Cymru;
- Cronfa Bensiwn Heddlu De Cymru.

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Prif Gwnstabl De Cymru yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu De Cymru yn cynnwys Cyfrif y Gronfa, y Datganiad am Asedau Net a nodiadau cysylltiedig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Prif Gwnstabl De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru ar 31 Mawrth 2019 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio'n fanylach yn yr adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar Brif Gwnstabl De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn cynnig sail ddigonol a phriodol ar gyfer fy marn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu, yn y datganiadau ariannol, unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai godi amheuaeth sylweddol am allu Prif Gwnstabl De Cymru i barhau i ddefnyddio proses gyfrifyddu sy'n seiliedig ar fusnes gweithredol am ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan roddir awdurdod i gyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Naratif a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd ar y datganiadau hynny. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennyf gyfrifoldeb i ddarllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn anghywir mewn ffordd berthnasol yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad, neu'n anghyson mewn ffordd berthnasol â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynghylch Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru a'u hamgylchedd y gwneuthum eu meithrin yn ystod fy archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn cyflwyno adroddiad i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu cywir wedi'u cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Prif Gwnstabl De Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Gweinyddol

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu De Cymru, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol sydd ei hangen ym marn y swyddog ariannol cyfrifol er mwyn paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Prif Gwnstabl De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

Anthony J Barrett

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd

CF11 9LJ

.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl

Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl:

- wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Y swyddog hwnnw yw Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl;
- rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon hwn wedi'i gymeradwyo.

MATT JUKES
Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
Dyddiedig: 29 Gorffennaf 2019

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Ariannol

Mae'r Prif Swyddog Ariannol yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y'u nodwyd yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Ariannol wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- cydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Prif Swyddog Ariannol hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Prif Gwnstabl De Cymru ar y dyddiad cyfrifyddu ac o'i wariant a'i incwm ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU

UMAR HUSSAIN
Prif Swyddog Ariannol
Dyddiad llofnodi (gan y swyddog ariannol cyfrifol) Dyddiedig: 30 Mai 2019

UMAR HUSSAIN
Prif Swyddog Ariannol
Dyddiad llofnodi (cyn cymeradwyaeth y Prif Gwnstabl) Dyddiedig: 29 Gorffennaf 2019

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – Prif Gwnstabl

	Nodyn	Prif Gwnstabl 2018-19			Prif Gwnstabl 2017-18 wedi'I Ailddatgan		
		Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000	Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
Cyflog a Phensiynau Swyddogion yr Heddlu		168,414	0	**168,414**	166,772	0	**166,772**
Cyflog Staff yr Heddlu		63,295	0	**63,295**	62,362	0	**62,362**
Cyllidebau Datganoledig	*	9,083	0	**9,083**	9,257	0	**9,257**
Cyllidebau'r Heddlu/Wrth Gefn		26,648	0	**26,648**	21,483	0	**21,483**
Cyllidebau wedi'u Canoli		8,812	0	**8,812**	11,591	0	**11,591**
Cyllidebau a Ariannwyd yn Allanol		19,488	0	**19,488**	19,609	0	**19,609**
Cyllidebau Cydweithio		25,660	0	**25,660**	19,119	0	**19,119**
Cyllidebau Canolog	*	14,416	0	**14,416**	10,701	0	**10,701**
Gwasanaethau'r Heddlu		**335,816**	**0**	**335,816**	**320,894**	**0**	**320,894**
Costau Annosbarthedig:							
- Buddiannau Ymddeol Cost Gwasanaeth a Roddwyd		158,115	0	**158,115**	2,270	0	**2,270**
Cost Gwasanaethau		**493,931**	**0**	**493,931**	**323,164**	**0**	**323,164**
Gwariant gweithredu arall:							
-Ardollau i wasanaethau heddlu cenedlaethol		1,767	0	**1,767**	3,155	0	**3,155**
Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi	6	86,875	0	**86,875**	89,971	0	**89,971**
Trethiant ac incwm grant amhenodol		0	0	**0**	0	0	**0**
Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp)		(582,573)	0	**(582,573)**	(416,290)	0	**(416,290)**
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau		**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**
(Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn				68,641			(68,831)
Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp)				(68,641)			68,831
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				**0**			**0**
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				**0**			**0**

*Mae cyfrifon 2017/18 wedi cael eu hailddatgan i ddangos sut y cafodd lleihad mewn gwerth ei ailddosbarthu.

Mantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth asedau a rhwymedigaethau cydnabyddedig. Mae'r asedau net (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Grŵp.

Mae asedau Net y Prif Gwnstabl yn glir i DDIM, gan nad oes unrhyw gyfrifon cronfeydd wrth gefn y mae angen rhoi cyfrif amdanynt, a'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am yr holl Asedau a Rhwymedigaethau. Mae'r asedau Net yn glir i DDIM drwy Ddyledwr o fewn y grŵp ar gyfer cyfalaf gweithio i fodloni credydwyr byrdymor a Rhwymedigaethau Pensiwn hirdymor.

	Nodyn	31 Mawrth 2019 £000	31 Mawrth 2018 £000
Dyledwyr Hirdymor – trosglwyddo o fewn y grŵp		3,721,099	3,419,122
Asedau Hirdymor		**3,721,099**	**3,419,122**
Rhestrau eiddo		1,295	1,242
Dyledwyr – cyfalaf gweithio o fewn y grŵp		24,746	19,972
Asedau Cyfredol		**26,041**	**21,214**
Credydwyr Byrdymor	7	(26,041)	(21,214)
Rhwymedigaethau Cyfredol		**(26,041)**	**(21,214)**
Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol	13.1	(136,179)	(139,132)
Cynlluniau Pensiwn yr Heddlu	13.2	(3,584,920)	(3,279,990)
Rhwymedigaethau Hirdymor		**(3,721,099)**	**(3,419,122)**
Asedau Net		**0**	**0**

Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn

Nid yw'r cyfrif hwn yn gymwys gan nad oes unrhyw falansau perthnasol y mae angen rhoi cyfrif amdanynt. Mae'r (gwarged)/diffyg ar ddarparu gwasanaethau a gwariant cynhwysfawr arall yn glir i Ddim drwy drosglwyddiad o fewn y grŵp i Gyfrif Cronfa Heddlu'r Comisiynydd. (Nid oes unrhyw falansau ar Addasiadau i Gronfeydd Wrth Gefn nac Addasiadau Cyfrifyddu).

Llif Arian Parod

Nid yw'r cyfrif hwn yn gymwys gan nad oes unrhyw falansau perthnasol y mae angen rhoi cyfrif amdanynt. Delir cyfrifon banc gan y Comisiynydd ac fe'u gweithredir ar sail Grŵp.

Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu

Cynllun yr Heddlu	2018-19 £000	2017-18 £000
Cyfraniadau derbyniadwy		
Gan y cyflogwr:		
- Normal	(25,731)	(25,051)
- Ymddeoliadau cynnar (yn cynnwys tâl cyfalaf cyfatebol ar gyfer ymddeoliadau oherwydd salwch)	(308)	(812)
Gan yr aelodau:	(14,336)	(13,960)
Trosglwyddiadau i mewn		
Trosglwyddiadau unigol i mewn o gynlluniau eraill	(392)	(388)
Buddiannau sy'n daladwy		
Pensiynau	75,171	72,178
Cymudiadau a buddiannau ymddeol - cyfandaliadau	15,234	20,738
Buddiannau marwolaeth – cyfandaliadau	239	201
Taliadau i'r sawl sy'n ymadael ac mewn perthynas â nhw	107	0
Is-gyfanswm cyn trosglwyddo o Gronfa'r Heddlu	**49,984**	**52,906**
Arian ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa'r Heddlu (ar ffurf grantiau ychwanegol)	**(49,984)**	**(52,906)**
Diffyg i'w dalu o Gronfa'r Heddlu	**0**	**0**
Datganiad o Asedau Net		
Asedau a rhwymedigaethau cyfredol net		
Asedau Cyfredol		
Dyledwr – balansau net sy'n ddyledus o Gronfa'r Heddlu	0	0
Balans banc	586	111
Rhwymedigaethau Cyfredol		
Credydwr – buddiannau sy'n daladwy i swyddogion sy'n ymddeol ar ddiwedd Mawrth a dalwyd Ebrill	0	0
Credydwr – balansau net sy'n ddyledus i Gronfa'r Heddlu	(586)	(111)
Net	0	0

Nodiadau i Gyfrifon Cronfa Bensiwn yr Heddlu

Dim ond 21.3% o gyfraniadau'r cyflogwr (cyfraniad gwirioneddol o 24.2%) a gafodd ei hariannu gan y Swyddfa Gartref, sef cost o £3.083m yn erbyn cyllideb y Comisiynydd yn ystod 2018/19.

Nid oes unrhyw asedau buddsoddi yn y gronfa. Caiff taliadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn eu cydbwyso i ddim bob blwyddyn drwy gyfrwng cyfraniad ychwanegol o Gronfa'r Heddlu a gaiff ei ad-dalu, yn ei dro, gan y Swyddfa Gartref.

Nid yw datganiadau ariannol y gronfa yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau eraill ar ôl diwedd y flwyddyn. Rhoddir cyfrif am y rhain ym mantolen y Grŵp o dan fuddiannau ymddeol yn y dyfodol.

Ar wahân i'r nodiadau uchod, mae Cronfa Bensiwn yr Heddlu wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu a nodir yn nodyn 1 isod.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

CYNNWYS	Rhif Tudalen
Nodyn 1 Polisïau Cyfrifyddu	23
Nodyn 2 Safonau Cyfrifyddu a Gyhoeddwyd, Nad Ydynt wedi'u Mabwysiadu	26
Nodyn 3 Dyfarniadau Hollbwysig wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu	26
Nodyn 4 Rhagdybiaethau a Wnaed ynglŷn â Ffynonellau o Ansicrwydd Amcangyfrif yn y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif	27
Nodyn 5 Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen	28
Nodyn 6 Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	28
Nodyn 7 Credydwyr	28
Nodyn 8 Symiau y Rhoddwyd Gwybod Amdanynt er mwyn Gwneud Penderfyniadau ynghylch Dyrannu Adnoddau	28
Nodyn 9 Cydnabyddiaeth Swyddogion / Cyflogeion	29
Nodyn 10 Costau Archwilio Allanol	31
Nodyn 11 Partïon Cysylltiedig	32
Nodyn 12 Prydlesau	33
Nodyn 13 Cynlluniau Pensiwn Buddiannau Diffiniedig	33
Nodyn 14 Cydweithredu	41

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Nodyn 1 Polisïau Cyfrifyddu

Egwyddorion Cyffredinol

Yr egwyddorion a'r arferion cyffredinol a ddefnyddiwyd i lunio'r cyfrifon hyn yw'r rhai a argymhellir gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Cyfeirir at y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018/19 – yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (y Cod).

Mae'r codau ymarfer hyn yn nodi'r arferion cyfrifyddu priodol sy'n ofynnol yn unol ag adran 21(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio fel y'u diwygiwyd.

Mae gan Gyrff Llywodraeth Leol rywfaint o ddisgresiwn wrth benderfynu ar y polisïau y mae angen eu darparu a lefel y manylion y mae angen eu datgelu ond mae'r Cod yn nodi bod rhagdybiaeth bod gan ddefnyddwyr datganiadau ariannol lefel resymol o wybodaeth am gyfrifyddu a fyddai'n cyfyngu ar y manylion y byddai angen eu darparu wrth grynhoi polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Croniadau incwm a gwariant

Cyfrifir am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, ac nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Yn benodol:

- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'r dyddiad y'u defnyddir cânt eu cario fel rhestrau eiddo ar y Fantolen;
- Cofnodir treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) fel gwariant pan fydd y gwasanaethau yn cael eu derbyn yn hytrach na phan fydd y taliadau yn cael eu gwneud;
- Pan nad oedd symiau gwirioneddol ar gael, gall fod wedi bod angen defnyddio gwerthoedd amcangyfrifedig priodol.

<u>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>
Caiff incwm a grantiau eu credydu i'r Gronfa Gyffredinol o dan gyfrifoldeb y Comisiynydd ac fe'u hystyrir wrth drosglwyddo o fewn y grŵp i'r Prif Gwnstabl er mwyn ariannu gwariant.

Rhoddir cyfrif am wariant ar sail 'cyfarwyddyd a rheolaeth' gan fod y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd yn mynd i gostau h.y.

- codir gwariant ar gyflogau swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu, ac eithrio'r rhai sy'n aelodau o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ar y Prif Gwnstabl;
- yn yr un modd, codir costau pensiwn a buddiannau ymddeol yn y dyfodol ar gyfer swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu ar yr un sail;
- codir costau nad ydynt yn ymwneud â chyflog, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â Thîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ar y Prif Gwnstabl;
- codir symiau dibrisio asedau ar y Comisiynydd ar sail dybiannol, yn ôl perchenogaeth, a'u hailgodi ar y Prif Gwnstabl ar gyfer yr asedau a ddefnyddiwyd, a ystyrir wrth drosglwyddo o fewn y grŵp.

<u>Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn</u>
Nid yw'r cyfrif hwn yn gymwys gan nad oes unrhyw falansau perthnasol y mae angen rhoi cyfrif amdanynt. Mae'r (gwarged)/diffyg ar ddarparu gwasanaethau a gwariant cynhwysfawr arall yn glir i Ddim drwy drosglwyddiad o fewn y grŵp i Gyfrif Cronfa Gyffredinol y Comisiynydd. (Nid oes unrhyw falansau ar Addasiadau i Gronfeydd Wrth Gefn nac Addasiadau Cyfrifyddu).

Llif Arian Parod
Nid yw'r cyfrif hwn yn gymwys gan nad oes unrhyw falansau perthnasol y mae angen rhoi cyfrif amdanynt. Delir cyfrifon banc gan y Comisiynydd ac fe'u gweithredir ar sail Grŵp.

Mantolen
Mae asedau Net y Prif Gwnstabl yn glir i DDIM, gan nad oes unrhyw gyfrifon cronfeydd wrth gefn y mae angen rhoi cyfrif amdanynt, a'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am yr holl Asedau a Rhwymedigaethau. Mae'r asedau Net yn glir i DDIM drwy Ddyledwr o fewn y grŵp ar gyfer cyfalaf gweithio i fodloni credydwyr byrdymor a Rhwymedigaethau Pensiwn hirdymor.

Buddiannau cyflogeion

Buddiannau sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth
Buddiannau byrdymor i gyflogeion yw'r buddiannau hynny a fydd yn cael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau megis cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb oherwydd salwch â thâl, taliadau bonws a buddiannau anariannol (e.e. ceir) i gyflogeion cyfredol ac fe'u cydnabyddir fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau neu unrhyw fath o absenoldeb (gan gynnwys gwyliau blynyddol ac absenoldeb hyblyg) a enillir gan gyflogeion ond nas cymerir cyn diwedd y flwyddyn, y gall cyflogeion eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar gyfraddau cyflog sy'n gymwys yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cymryd y buddiant. Codir y croniad ar Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel y bydd buddiannau gwyliau yn cael eu codi i'r cyfrif refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb oherwydd gwyliau yn digwydd ynddi.

Buddiannau Terfynu
Buddiannau terfynu yw symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad i derfynu cyflogaeth cyflogai cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol a chânt eu codi ar sail croniadau ar y Costau Nas Dosbarthwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd ymrwymiad amlwg i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu wneud cynnig i annog diswyddiad gwirfoddol.
Pan fydd buddiannau terfynu yn cynnwys pensiynau ychwanegol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol mai'r swm sy'n daladwy i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei godi ar falans Cronfa'r Heddlu, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen neilltuo arian i ac o'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn er mwyn dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu ar ffurf pensiwn ychwanegol a rhoi debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw gyfryw symiau sy'n daladwy ond nas telir ar ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

Buddiannau Ôl-gyflogaeth
Ni chaiff pensiynau Swyddogion yr Heddlu eu hariannu drwy statud. Fodd bynnag, newidiodd y trefniadau ariannol ar 1 Ebrill 2006 o drefniant 'Talu Wrth Ddefnyddio' (h.y. yn seiliedig ar daliadau i bensiynwyr presennol), a godir yn uniongyrchol ar y Cyfrif Refeniw, i gyfraniad pensiwn blynyddol gan y cyflogwr yn seiliedig ar ganran o gyflog, gyda'r balans sy'n daladwy i bensiynwyr yn cael ei dalu o grant a ddarperir gan y Swyddfa Gartref. Mae pob cyflogai arall yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn aelodau o Gronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yn gwneud cyfraniadau cyflogwr priodol i'r Gronfa Bensiwn honno.

Mae'r ddau gynllun yn rhoi buddiannau diffiniedig i'w haelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd fel cyflogeion.

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad y caiff y Datganiad o Gyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Nid yw digwyddiadau ar ôl y dyddiad olaf hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau.

Pan fydd digwyddiadau sy'n mynd rhagddynt cyn y dyddiad hwn (digwyddiadau sy'n arwain at addasiadau) yn rhoi gwybodaeth am amodau sy'n bodoli ar ddyddiad y fantolen, caiff y ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau eu haddasu ym mhob ffordd berthnasol er mwyn adlewyrchu effaith y wybodaeth hon. Pan fydd digwyddiadau sy'n mynd rhagddynt cyn y dyddiad hwn (digwyddiadau nad ydynt yn arwain at addasiadau) yn nodi amodau a welir ar ôl dyddiad y fantolen, ni chaiff y datganiadau ariannol eu haddasu. Fodd bynnag, os ydynt yn berthnasol, cânt eu datgelu mewn nodyn.

Eitemau eithriadol ac addasiadau cyfnod blaenorol

Pan fydd eitemau o incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'r swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol.

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Rhoddir cyfrif am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn y dyfodol, (h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd yn y dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn peri addasiad cyfnod blaenorol).

Dim ond pan fydd eu hangen yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol neu pan fydd y newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y bydd newidiadau i bolisïau cyfrifyddu.

Pan fydd newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir fel arall) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed. Caiff gwallau perthnasol a ddarganfyddir mewn ffigurau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol.

Rhestrau eiddo a chontractau hirdymor

Caiff rhestrau eiddo (stociau) eu prisio ar gost neu werth gwireddadwy net, pa bynnag yw'r isaf. Rhoddir cyfrif am gontractau hirdymor drwy godi gwerth gwaith a gwasanaethau a dderbyniwyd o dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol ar Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau.

Trefniadau ar y cyd - Rhoi cyfrif am drefniadau ar y cyd a gydgrynhoir

Pan fo'r Comisiynydd/Heddlu wedi ymrwymo i drefniadau cydweithio â Chomisiynwyr/Heddluoedd eraill, mae asesiad wedi'i gynnal yn erbyn IFRS 11 (Trefniadau ar y Cyd) er mwyn nodi'r dull cyfrifyddu priodol. Mae IFRS 11 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw drefniadau o'r fath gael eu dosbarthu naill ai fel Cyd-fentrau neu Gyd-ymgyrchoedd. Caiff holl

gyfryw drefniadau'r Comisiynydd/Heddlu eu dosbarthu fel Cyd-ymgyrchoedd, a bydd gan y Comisiynydd/Heddlu yr hawl i gyfran deg o Asedau a Rhwymedigaethau'r Cyd-ymgyrchoedd.

Prydlesau

Codir costau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y brydles.

Treth ar werth

Mae TAW sy'n daladwy yn cael ei chynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad oes modd ei hadennill oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Nid yw TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i chynnwys mewn incwm.

Nodyn 2 Safonau Cyfrifyddu a Gyhoeddwyd, Nad Ydynt wedi'u Mabwysiadu

O dan y Cod, mae'n ofynnol i'r Grŵp gyflwyno gwybodaeth sy'n nodi effaith newid cyfrifyddu sy'n ofynnol o dan safon gyfrifyddu newydd sydd wedi cael ei chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto o dan y cod. Mae nifer o fân addasiadau wedi'u gwneud i IFRS ond ni ddisgwylir iddynt effeithio ar y cyfrifon.

Mae IFRS 16 (Prydlesau) wedi cael ei chyhoeddi ond ni chaiff ei rhoi ar waith tan 2020/21.

Nodyn 3 Dyfarniadau Hollbwysig wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu, bu'n rhaid i Heddlu De Cymru/y Comisiynydd lunio barn ar drafodion cymhleth neu'r rhai sy'n cynnwys ansicrwydd ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol.

Mae'r barnau allweddol a luniwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys y canlynol:

- Mae cryn ansicrwydd ynglŷn â lefelau ariannu yn y dyfodol. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i ddangos y gallai gwerth yr asedau gael ei leihau ymhellach o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau'r gwasanaethau a ddarperir.

- Mae croniadau ar gyfer absenoldebau cronnus yn seiliedig ar wybodaeth o ddwy ffynhonnell wahanol: caiff gwybodaeth am swyddogion a staff gweithredol ar rotâu ei chymryd o system rota'r heddlu; caiff gwybodaeth am yr holl aelodau eraill o staff ei thynnu o sampl gynrychioliadol gan nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn system rota'r heddlu.

Nodyn 4 Rhagdybiaethau a Wnaed ynglŷn â Ffynonellau o Ansicrwydd Amcangyfrif yn y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â'r dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon. Mae'r eitemau yn y Fantolen ar 31 Mawrth 2019 y mae risg sylweddol y bydd angen gwneud addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd		Effaith Os Bydd y Canlyniadau Gwirioneddol yn Wahanol i'r Rhagdybiaethau	
Rhwymedigaeth Pensiwn – Heddlu (Gwybodaeth gan yr Actiwari)				
	Sensitifrwydd y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig i newidiadau yn y rhagdybiaethau actiwaraidd arwyddocaol:			
	Newid yn y rhagdybiaeth*		**Effaith ar y Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig**	
			%	**£ miliwn**
	Cyfradd ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	½% y flwyddyn	-9.5%	-320
	Cyfradd cynnydd mewn cyflog	+½% y flwyddyn	1.0%	42
	Cyfradd cynnydd mewn pensiynau / ailbrisiad a ohiriwyd	+½% y flwyddyn	7.0%	248
	Disgwyliad oes: pob pensiynwr - hirhoedledd blwyddyn yn fwy		2.5%	83
	*Bydd newidiadau i'r gwrthwyneb o ran y rhagdybiaethau yn arwain at yr un newidiadau i'r gwrthwyneb o ran y RhBD. Bydd dyblu'r newidiadau o ran y rhagdybiaethau yn arwain at ddyblu'r newidiadau o ran y RhBD. Mae'r sensitifrwydd yn dangos y newid yn y rhagdybiaeth ar ei ben ei hun. Yn ymarferol, prin yw'r achosion pan fydd y cyfryw ragdybiaethau yn newid ar eu pen eu hunain ac o ystyried y rhyngddibyniaethau rhwng y rhagdybiaethau, gall yr effeithiau arwain at rywfaint o wrthbwyso.			
	Hyd cyfartalog y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig wedi'i bwysoli yw tua 20 mlynedd ar gyfer yr holl gynlluniau gyda'i gilydd.			
Rhwymedigaeth Pensiwn – LGPS (Gwybodaeth gan yr Actiwari)				
	Mae'r canlyniadau a ddangosir yn yr adroddiad yn sensitif i'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd. Nodir brasamcan o'r effaith y gallai newid y rhagdybiaethau allweddol ei chael ar werth cyfredol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig a ariennir ar 31 Mawrth 2017 isod.			
	Ym mhob achos, dim ond y rhagdybiaeth a nodir a gaiff ei newid; erys pob rhagdybiaeth arall fel ag y mae. Er enghraifft, rydym wedi tybio na fydd chwyddiant yn newid y ffigur chwyddiant cyflog, dim ond y cynnydd mewn pensiynau. Nid ydym wedi cynnwys sensitifrwydd buddiannau nas ariennir ar sail perthnasedd.			
	Newid yn y rhagdybiaeth*	**Effaith ar y Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig**		
			%	**£ million**
	Addasiad i'r gyfradd ddisgowntio	-0.1% y fl.	2.2	11
	Addasiad i'r gyfradd cynnydd mewn cyflog	+0.1% y fl.	0.6	3
	Addasiad i'r gyfradd cynnydd mewn pensiwn	+0.1% y fl.	1.7	8
	Addasiad i'r rhagdybiaeth nodi oedran marwolaeth **	+1	-3.1	-15
	**Mae sgôr o +blwyddyn yn golygu y tybir bod aelodau yn dilyn y patrwm marwolaeth a nodir yn y tabl sylfaen ar gyfer unigolyn sydd			
Mc Cloud/Sargeant				
	Nid yw'r dadansoddiad sensitifrwydd yn cynnwys effaith McCloud/Sargeant.			

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Nodyn 5 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Awdurdodwyd y Datganiad o Gyfrifon drafft i'w gyhoeddi gan y Prif Swyddog Ariannol ar 30 Mai 2019. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau sy'n arwain at addasiadau na digwyddiadau nad ydynt yn arwain at addasiadau.

Nodyn 6 Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi

	2018-19 £000	2017-18 £000
Costau llog pensiynau	86,930	90,030
Llai eitemau pensiwn sy'n ymwneud â'r Comisiynydd	(55)	(59)
Cyfanswm	**86,875**	**89,971**

Nodyn 7 Credydwyr

Mae'r symiau sy'n ddyledus i drydydd partïon ar ddyddiad y fantolen fel a ganlyn.

	2018-19 £000	2017-18 £000
Cyrff llywodraeth ganolog	8,424	7,347
Awdurdodau lleol eraill	4,938	3,457
Endidau ac unigolion eraill (gan gynnwys cronfeydd eraill)	15,714	13,429
Llai eitemau credydwr sy'n ymwneud â'r Comisiynydd	(3,035)	(3,019)
Cyfanswm	**26,041**	**21,214**

Nodyn 8 Symiau y Rhoddwyd Gwybod Amdanynt er mwyn Gwneud Penderfyniadau ynghylch Dyrannu Adnoddau

Dadansoddiad goddrychol – Incwm a Gwariant

	2018-19 £000	2017-18 £000
Treuliau cyflogeion	199,211	197,086
Treuliau gweithredu eraill	294,720	126,078
Cyfanswm treuliau gweithredu	**493,931**	**323,164**
Cost Net Gwasanaethau	**493,931**	**323,164**

Nodyn 9 Cydnabyddiaeth Swyddogion/Cyflogeion

Cymhareb Cydnabyddiaeth

Mae'r datgeliad hwn yn ofynnol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac yn gyson â'r argymhelliad a wnaed gan Adolygiad Hutton, sef y dylid sicrhau tryloywder ac atebolrwydd endidau sector cyhoeddus.

Prif Gwnstabl

Y gymhareb rhwng y Prif Gwnstabl a'r gydnabyddiaeth ganolrifol o fewn yr Heddlu oedd:

	2018-19 £	2017-18 £
Band y cyfarwyddwr y telir y cyflog mwyaf iddo (Prif Gwnstabl) – Cyfanswm Cydnabyddiaeth (ac eithrio cyfraniadau pensiwn)	165,000-169,999	155,000-159,999
Cyfanswm Cydnabyddiaeth Canolrif	31,465	30,729
	5.2	**5.0**

Bandiau Cydnabyddiaeth

Nodir nifer swyddogion yr heddlu a chyflogeion yr heddlu a dderbyniodd gydnabyddiaeth o fwy na £60,000 yn ystod y flwyddyn isod. Mae hwn yn un o ofynion penodol Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'r diffiniad yn cynnwys cyflogau blynyddol a lwfansau treuliau y mae'n rhaid talu treth incwm y Deyrnas Unedig arnynt, ond nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn. Mae'r tabl yn cynnwys swyddogion yr heddlu ac uwch gyflogeion yr heddlu y rhoddir mwy o fanylion amdanynt isod.

Un endid - Prif Gwnstabl

Nifer Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu (Cyflogeion): Cydnabyddiaeth	2018-19	2017-18
60,000-64,999	19	29
65,000-69,999	11	11
70,000-74,999	15	8
75,000-79,999	4	8
80,000-84,999	8	7
85,000-89,999	4	5
90,000-94,999	3	2
95,000-99,999	0	0
100,000-104,999	0	0
105,000-109,999	0	2
110,000-114,999	0	0
115,000-119,999	2	1
120,999-124,999	1	0
125,000-129,999	0	1
130,000-134,999	1	2
135,000-139,999	0	0
140,000-144,999	1	1
145,000-149,999	0	0
150,000-154,999	0	0
155,000-159,999	0	0
160,000-164,999	0	0
165,000-165,999	1	0
	70	**77**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Pecynnau Ymadael

Nodir nifer y pecynnau ymadael, gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost diswyddiadau gorfodol a diswyddiadau eraill, yn y tabl isod. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys ymddeoliadau cynnar gwirfoddol fel y'u nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Band cost pecynnau ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig)	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt		Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost		Cyfanswm cost pecynnau ymadael ym mhob band	
			(Diswyddiadau gwirfoddol)					
	2018-19	**2017-18**	**2018-19**	**2017-18**	**2018-19**	**2017-18**	**2018-19**	**2017-18**
£0 - £20,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£20,001 - £40,000	0	0	1	0	1	0	20,567	0
£40,001 - £60,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**0**	**0**	**1**	**0**	**1**	**0**	**20,567**	**0**

Adroddiad ar gydnabyddiaeth uwch swyddogion perthnasol yr heddlu ac uwch gyflogeion yr heddlu

Mae'r tabl canlynol yn datgelu cydnabyddiaeth swyddogion perthnasol yr heddlu (uwchlaw rheng Uwch-arolygydd) ac uwch gyflogeion (deiliaid swyddi dynodedig corff llywodraeth leol) y mae eu cyflog yn hafal i £60,000 y flwyddyn neu'n fwy na hynny. Yn unol â'r rheoliadau, mae angen nodi enwau unigolion y mae eu cyflog yn fwy na £150,000 y flwyddyn hefyd. Yn ogystal â'r gydnabyddiaeth a nodir uchod, mae'r datgeliadau canlynol yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr. Lle nodir '0' yn y colofnau, nid oes angen eu cynnwys. Darperir datgeliadau cyfatebol ar gyfer y flwyddyn gymharol.

Cyflogir Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan gan Heddlu De Cymru a dangosir cyfanswm ei gostau cydnabyddiaeth yn Adroddiad Heddlu De Cymru ar Gydnabyddiaeth. Mae pob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru yn cyfrannu at gyfanswm cost cydnabyddiaeth Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan. Yn 2018-19, talwyd cost wirioneddol o £45,728 gan Heddlu De Cymru (2017-18, £42,013), gyda gweddill y costau yn cael eu hadennill oddi wrth yr heddluoedd eraill yng Nghymru.

Y Prif Gwnstabl 2018/19

Gwybodaeth am ddeiliad y swydd (Teitl y swydd ac enw)	Nodiadau	Cyflog (Yn cynnwys ffioedd a lwfansau) £	Taliadau bonws £	Lwfansau treuliau £	Iawndal am golli swydd £	Buddiannau mewn Da (e.e. Lwfans Car) £	Taliadau eraill (Swyddogion yr Heddlu yn unig) £	**Cyfanswm Cydnabyddiaeth ac eithrio cyfraniadau pensiwn 2018-19 £**	Cyfraniadau pensiwn £	**Cyfanswm Cydnabyddiaeth yn cynnwys cyfraniadau pensiwn 2018-19 £**
Prif Gwnstabl M. Jukes		157,686	0	0	0	7,483	0	**165,169**	38,132	**203,301**

Post holder information (post title)	Nodiadau	Cyflog (Yn cynnwys ffioedd a lwfansau) £	Taliadau bonws £	Lwfansau treuliau £	Iawndal am golli swydd £	Buddiannau mewn Da (e.e. Lwfans Car) £	Taliadau eraill (Swyddogion yr Heddlu yn unig) £	**Cyfanswm Cydnabyddiaeth ac eithrio cyfraniadau pensiwn 2018-19 £**	Cyfraniadau pensiwn £	**Cyfanswm Cydnabyddiaeth yn cynnwys cyfraniadau pensiwn 2018-19 £**
Dirprwy Brif Gwnstabl		132,860	0	0	0	6,833	1,719	**141,412**	23,529	**164,941**
Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan	Nodyn 1	131,063	0	0	0	3,759	0	**134,822**	31,459	**166,281**
PGC Plismona Tiriogaethol		114,191	0	0	0	4,681	0	**118,872**	26,928	**145,800**
PGC Troseddau Arbenigol		118,343	0	0	0	3,515	0	**121,858**	26,984	**148,842**
Prif Swyddog Ariannol		106,921	0	0	0	9,165	0	**116,086**	16,465	**132,551**
PGC Pennaeth Portffolio Cymorth 1	Nodyn 2	80,600	0	0	0	2,874	0	**83,474**	19,488	**102,962**
PGC Pennaeth Portffolio Cymorth 2	Nodyn 3	19,168	0	0	0	0	0	**19,168**	4,030	**23,198**
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol 1	Nodyn 4	56,747	0	0	0	691	0	**57,438**	8,739	**66,177**
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol 2	Nodyn 5	41,478	0	439	0	0	0	**41,917**	6,388	**48,305**

Nodyn 1 Dirprwy Brif Gwnstabl – Cymru Gyfan rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth 2019

Nodyn 2 Prif Gwnstabl Cynorthwyol rhwng 11 Mehefin 2018 a 31 Mawrth 2019 – cyflog yn seiliedig ar flwyddyn £100,509 (dyfarniad cyflog 1 Medi 2018). Treuliau adleoli

Nodyn 3 Prif Gwnstabl Cynorthwyol rhwng 1 Ebrill a 10 Mehefin 2018 – cyflog yn seiliedig ar flwyddyn £98,538 – talwyd lwfans amhensiynadwy.

Nodyn 4 Cyfarwyddwr rhwng 10 Medi 2018 a 31 Mawrth 2019 – cyflog ar yn seiliedig ar flwyddyn £101,637. Lwfans defnyddwyr ceir hanfodol

Nodyn 5 Cyfarwyddwr dros dro rhwng 1 Ebrill a 8 Medi 2018 – cyflog ar yn seiliedig ar flwyddyn £99,644. – Lwfans defnyddwyr ceir hanfodol.

Y Prif Gwnstabl 2017/18

Gwybodaeth am ddeiliad y swydd (Teitl y swydd ac enw)	Nodiadau	Cyflog (Yn cynnwys ffioedd a lwfansau) £	Taliadau bonws £	Lwfansau treuliau £	Iawndal am golli swydd £	Buddiannau mewn Da (e.e. Lwfans Car) £	Taliadau eraill (Swyddogion yr Heddlu yn unig) £	**Cyfanswm Cydnabyddiaeth ac eithrio cyfraniadau pensiwn 2017-18 £**	Cyfraniadau pensiwn £	**Cyfanswm Cydnabyddiaeth yn cynnwys cyfraniadau pensiwn 2017-18 £**
Prif Gwnstabl P. Vaughan	Nodyn 1	120,805	0	0	0	5,313	12,822	**138,940**	0	**138,940**
Prif Gwnstabl M. Jukes	Nodyn 2	48,646	0	0	0	0	0	**48,646**	8,071	**56,717**

Post holder information (post title)	Nodiadau	Cyflog (Yn cynnwys ffioedd a lwfansau) £	Taliadau bonws £	Lwfansau treuliau £	Iawndal am golli swydd £	Buddiannau mewn Da (e.e. Lwfans Car) £	Taliadau eraill (Swyddogion yr Heddlu yn unig) £	**Cyfanswm Cydnabyddiaeth ac eithrio cyfraniadau pensiwn 2017-18 £**	Cyfraniadau pensiwn £	**Cyfanswm Cydnabyddiaeth yn cynnwys cyfraniadau pensiwn 2017-18 £**
Dirprwy Brif Gwnstabl 1	Nodyn 2	87,362	0	0	0	5,331	0	**92,693**	21,270	**113,963**
Dirprwy Brif Gwnstabl 2	Nodyn 3	40,133	0	0	0	0	0	**40,133**	9,712	**49,845**
Dirprwy Brif Gwnstabl 3	Nodyn 7	127,966	0	0	0	6,357	0	**134,323**	30,968	**165,291**
PGC Plismona Tiriogaethol		102,470	0	0	0	5,023	0	**107,493**	24,974	**132,467**
PGC Troseddau Arbenigol		105,863	0	0	0	1,563	0	**107,426**	25,029	**132,455**
Prif Swyddog Ariannol		106,760	0	0	0	8,417	0	**115,177**	16,460	**131,637**
PGC Gweithrediadau Arbenigol 1	Nodyn 3	78,945	0	0	0	5,687	1,413	**86,045**	18,412	**104,457**
PGC Gweithrediadau Arbenigol 2	Nodyn 4	30,776	0	0	0	0	0	**30,776**	7,448	**38,224**
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol 1	Nodyn 5	35,433	0	0	0	1,559	0	**36,992**	5,276	**42,268**
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol 2	Nodyn 6	64,373	0	0	0	0	0	**64,373**	7,210	**71,583**

Nodyn 1 Prif Gwnstabl rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Rhagfyr 2017. Ddim yn aelod o'r cynllun pensiwn.

Nodyn 2 Prif Gwnstabl rhwng 8 Rhagfyr 2017 a 31 Mawrth 2018. Dirprwy Brif Gwnstabl o 1 Ebrill 2017. Cyflog yn seiliedig ar flwyddyn £155,754

Nodyn 3 Dirprwy Brif Gwnstabl rhwng 8 Rhagfyr 2017 a 31 Mawrth 2018. Cyflog Dirprwy Brif Gwnstabl yn seiliedig ar flwyddyn £128,496. Prif Gwnstabl Cynorthwyol rhwng 1 Ebrill 2017 a 7 Rhagfyr 2017. Cyflog yn seiliedig ar flwyddyn £111,249.

Nodyn 4 Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro rhwng 8 Rhagfyr 2017 a 31 Mawrth 2018. Cyflog yn seiliedig ar flwyddyn £98,538.

Nodyn 5 Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol rhwng 1 Ebrill 2017 a 23 Gorffennaf 2017. Wedi darparu gwasanaethau ar gyfer Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent a chaiff cyfran o'i gostau ei hadennill. Cyflog yn seiliedig ar flwyddyn £104,640

Nodyn 6 Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro rhwng 24 Gorffennaf 2017 a 31 Mawrth 2018. Cyflog yn seiliedig ar flwyddyn £93,611.

Nodyn 7 Dirprwy Brif Gwnstabl – Cymru Gyfan rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018

Nodyn 10 Costau Archwilio Allanol

Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd wedi mynd i'r costau canlynol, sy'n cwmpasu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, ardystio hawliadau grant ac arolygiadau statudol a gwasanaethau a ddarparwyd gan archwilwyr allanol nad ydynt yn rhai archwilio. Caiff cyfanswm y ffi yn y tabl eu rhannu'n gyfartal rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

	2018-19 £000	**2017-18** £000
Ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr allanol mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a ddarparwyd gan yr archwilydd penodedig ar gyfer y flwyddyn	101	101
Cyfanswm	**101**	**101**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Nodyn 11 Partïon Cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl ddatgelu trafodion perthnasol â phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Prif Gwnstabl neu'r potensial i'r Prif Gwnstabl eu rheoli neu ddylanwadu arnynt. Drwy ddatgelu'r trafodion hyn gall darllenwyr asesu i ba raddau y gallai Heddlu De Cymru/y Comisiynydd fod wedi'i gyfyngu o ran ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n ddirwystr â'r Prif Gwnstabl.

Mae gan lywodraeth ganolog ddylanwad sylweddol ar weithrediadau cyffredinol Heddlu De Cymru/y Comisiynydd gan ei bod yn gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn gweithredu oddi mewn iddo, yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd â phartion eraill. Nodir y grantiau a dderbyniwyd gan adrannau'r llywodraeth yn Nodyn 26 o Ddatganiad o Gyfrifon y Grŵp, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt delerau ac amodau caeth.

Mae gan y Comisiynydd reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a pholisïau gweithredu Heddlu De Cymru.
Nid oes gan y Prif Swyddogion na'u teuluoedd uniongyrchol unrhyw fuddiannau na chydberthnasau perthnasol a allai reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau, polisïau neu drafodion ariannol y Prif Gwnstabl.Mae proses gadarn ar waith hefyd i gymeradwyo a chofrestru buddiannau busnes staff a swyddogion yr heddlu.

Mae aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio Cyngor Abertawe. Mae aelod arall o'r Cydbwyllgor Archwilio yn aelod annibynnol o Bwyllgor Safonau Cyngor Abertawe. Yn ystod 2018-19, cafodd y Comisiynydd £15,107 gan Gyngor Abertawe a gwnaeth daliadau gwerth £524,181 (roedd £303,890 ohonynt yn ymwneud ag Ardrethi Annomestig). Roedd balans dyledwyr o £4,575 ar ddiwedd y flwyddyn, a balans credydwyr o £71,214 (y naill a'r llall yn glir o TAW).
Mae un aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio yn uwch aseswr gyda'r Coleg Plismona. Yn ystod 2018-19, derbyniodd Heddlu De Cymru incwm o £153,457 gan y Coleg Plismona, gyda balans dyledwyr o £117,305 ar ddiwedd y flwyddyn (yn glir o TAW). Gwnaeth Heddlu De Cymru daliadau gwerth £356,565 i'r Coleg Plismona yn ystod yr un cyfnod. Nid oedd unrhyw falans credydwyr ar ddiwedd y flwyddyn.
Mae gan un aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio berthynas sy'n swyddog yn Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr. Yn ystod 2018-19, cafodd y Comisiynydd £6,243 gan Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr a gwnaeth daliadau gwerth £69,113. Nid oedd unrhyw falansau credydwyr na dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn.
Mae'r un aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio hefyd yn Swyddog Rheoli Cyfrif Gweithredol i Gofrestrfa Tir EM. Yn ystod 2018-19, gwnaeth y Comisiynydd daliadau gwerth £16,370 i Gofrestrfa Tir EM ac ni dderbyniodd unrhyw incwm. Roedd balans credydwyr o £635 a dim balans dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn.
Mae aelod arall o'r Cydbwyllgor Archwilio yn aelod platinwm o Glwb Criced Sir Forgannwg. Yn ystod 2018-19, gwnaeth y Comisiynydd daliadau gwerth £14,750 i Glwb Criced Sir Forgannwg, ac ni dderbyniodd unrhyw daliadau. Nid oedd unrhyw falansau credydwyr na dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn.
Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb statudol i ddatgan unrhyw fuddiannau a chaiff y buddiannau hynny eu cyhoeddi ar y wefan, o dan 'materion a buddiannau ariannol'. http://commissioner.south-wales.police.uk/end/right-information/specified- information/
Mae'r Prif Gwnstabl wedi cael cymrodoriaeth anrhydeddus gan Brifysgol Caerdydd. Yn ystod 2018-19, gwnaeth y Comisiynydd daliadau gwerth £88,699 i Brifysgol Caerdydd. Roedd balans credydwyr o £5,000 ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae un o Gomisiynwyr Cynorthwyol yr Heddlu a Throseddu yn un o Gyfarwyddwyr Bwrdd Ardal Gwella Busnes Caerdydd (BID), a elwir hefyd yn FOR Cardiff. Mae Heddlu De Cymru wedi derbyn incwm net o £159,307 gan BID Caerdydd yn ystod y flwyddyn, ac ni wnaed unrhyw daliadau iddo. Roedd balans dyledwyr o £88,904 a dim balans credydwyr â BID Caerdydd ar ddiwedd y flwyddyn.
Tan fis Rhagfyr 2018, roedd Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd hefyd yn Brif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent. Yn ystod 2018-19, derbyniodd Heddlu De Cymru incwm o £7,191,839 gan Heddlu Gwent. Roedd balans dyledwyr o £3,635,486 (yn glir o TAW) ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd taliadau o £3,258,085 yn daladwy i Heddlu Gwent gan Heddlu De Cymru. Roedd balans credydwyr o £930,683 (yn glir o TAW) ar ddiwedd y flwyddyn.
Mae Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd yn Brif Swyddog Ariannol Cwmni TGCh yr Heddlu, ac mae Heddlu De Cymru wedi cynnal trafodion gwariant net gwerth £207,603 â Chwmni TGCh yr Heddlu yn ystod y flwyddyn, ond heb dderbyn unrhyw incwm ganddo. Nid oedd unrhyw falansau credydwyr na dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn.
Mae proses gadarn ar waith i gymeradwyo a chofrestru buddiannau busnes staff yr heddlu a swyddogion yr heddlu.

Nodyn 12 Prydlesau

Prydlesau Gweithredu

Caiff asedau a gaffaelir o dan brydlesau eu prydlesu'n gyfreithlon gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ond cânt eu defnyddio gan y Prif Gwnstabl. Mae'r rhain yn cynnwys prydlesau eiddo a chyfarpar. Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

	2018-19 £000	2017-18 £000
Dim hwyrach na blwyddyn	1,357	877
Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	2,070	2,043
Yn hwyrach na phum mlynedd	552	247
	3,979	**3,167**

Y gwariant a godwyd ar Wasanaethau'r Heddlu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesau hyn oedd:

	2018-19 £000	2017-18 £000
Isafswm taliadau prydles (cost flynyddol)	1,261	1,043
	1,261	**1,043**

Nodyn 13 Cynlluniau Pensiwn Buddiannau Diffiniedig

Dyfarniad McCloud / Sargeant
Mae Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill a'r Swyddfa Gartref, yn wynebu llawer o hawliadau a gyflwynwyd yn eu herbyn yn Nhribiwnlys Cyflogaeth Llundain Ganolog. Mae'r hawliadau yn ymwneud â gwahaniaethu anghyfreithlon honedig sy'n codi o'r Darpariaethau Trosiannol yn Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015. Mae hawliadau gwahaniaethu anghyfreithlon hefyd wedi'u cyflwyno mewn perthynas â'r newidiadau i reoliadau Pensiwn y Farnwriaeth a Diffoddwyr Tân ac ym mis Rhagfyr 2018 dyfarnodd y Llys Apêl (McCloud/Sargeant) fod yr 'amddiffyniad trosiannol' a gynigiwyd i rai aelodau fel rhan o'r diwygiadau i bensiynau sector cyhoeddus yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon. Ar 27

Mehefin, gwrthododd y Goruchaf Lys hawl i apelio mewn perthynas ag achos McCloud. Yn sgil hyn, rhagwelir y bydd y Llys yn mynnu bod newidiadau'n cael eu gwneud i drefniadau ar gyfer cyflogeion a gafodd eu trosglwyddo i'r cynlluniau newydd, gan gynnwys aelodau o Gynllun Pensiwn yr Heddlu o bosibl. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn yr Heddlu ac mae ein hactiwarïaid (Adran Actiwari'r Llywodraeth), gan ddefnyddio tybiaethau penodol a'u cymhwyso i gynllun yr Heddlu yn gyffredinol, wedi amcangyfrif y gallai'r cynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun i Heddlu De Cymru gyfateb i tua 4.4% neu £151.09m o rwymedigaethau'r cynllun pensiwn. Caiff y cynnydd hwn ei gynnwys yn Natgeliad IAS19 fel Cost Gwasanaeth a Roddwyd. Mae'r actiwarïaid wedi pwysleisio bod yr amcangyfrif hwn yn seiliedig ar un rhwymedi posibl, effaith bosibl unrhyw wahaniaeth ym mhroffil aelodau'r heddlu o gymharu â'r cynllun yn gyffredinol a bod y ffigurau'n sensitif iawn i dybiaethau ynghylch twf enillion byrdymor. Caiff effaith unrhyw gynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun sy'n deillio o ddyfarniad McCloud/Sargeant ei mesur drwy'r broses prisio pensiynau, sy'n pennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai. Cynhelir yr ymarfer prisio nesaf mewn perthynas â Phensiwn yr Heddlu yn 2020 a bwriedir gweithredu ar y canlyniadau yn 2023/24 a bydd angen i heddluoedd gynllunio ar gyfer effaith hyn ar gyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr ynghyd â newidiadau eraill a nodir yn ystod y broses brisio. Caiff effaith unrhyw gynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n deillio o ddyfarniad McCloud / Sargeant ei phennu drwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. O dan y Rheoliadau hyn, mae'n rhaid i awdurdod yr heddlu gynnal cronfa bensiwn y caiff cyfraniadau'r swyddogion a'r cyflogwr eu talu i mewn iddi ac a gaiff ei defnyddio i wneud taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad oes digon o arian yng nghronfa bensiwn yr heddlu i dalu costau pensiynau yn ystod y flwyddyn, yna bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn talu'r swm sy'n ddyledus i awdurdod yr heddlu ar ffurf grant ychwanegol gan y llywodraeth ganolog. O safbwynt y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae addasiad tebyg i gostau gwasanaeth a roddwyd yn Natgeliad IAS19 wedi cael ei wneud ar gyfer dyfarniad McCloud (addasiad yn dibynnu ar berthnasedd). Mae hyn yn cyfateb i gynydd o £7.08m mewn rhwymedigaethau. Caiff effaith unrhyw gynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun sy'n deillio o ddyfarniad McCloud/Sargeant ei mesur drwy'r broses prisio pensiynau, sy'n pennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai.

13.1 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS - ar gyfer Staff yr Heddlu)
Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy mewn gwirionedd nes bod cyflogeion yn ymddeol, mae gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd ymrwymiad i wneud y taliadau y mae angen eu datgelu ar yr adeg y mae cyflogeion yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT). Cynllun cyflog terfynol buddiannau diffiniedig a ariennir ydyw, sy'n golygu bod Heddlu De Cymru/y Comisiynydd a chyflogeion yn talu cyfraniadau i mewn i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi fantoli'r rhwymedigaethau pensiwn â'r asedau buddsoddi. Mae'r dull a ddefnyddir i bennu cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar adolygiad gan actiwarïaid y cynllun. Nid oes unrhyw gytundeb â chyrff cyhoeddus eraill i rannu diffygion cyflogwyr eraill.

- Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau yn ôl disgresiwn ar ôl ymddeol yn gynnar. Trefniant buddiannau diffiniedig nas ariennir yw hwn a chaiff rhwymedigaethau eu cydnabod pan ddyfernir y buddiannau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw asedau buddsoddi

ar gael i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn hyn, ac mae'n rhaid i arian parod gael ei gynhyrchu er mwyn talu'r taliadau pensiwn gwirioneddol wrth iddynt ddod yn ddyledus yn y pen draw.

Trafodion sy'n Ymwneud â Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan gyflogeion, yn hytrach na phan delir y buddiannau ar ffurf pensiynau yn y pen draw. Yn dilyn prisiad actiwaraidd llawn o'r Cynllun hwnnw, fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2016, mae gwaith interim pellach wedi'i wneud gan Actiwarïaid y Gronfa er mwyn nodi bras amcangyfrifon cost addas ar gyfer y cyrff sy'n cymryd rhan.

Fodd bynnag, mae'r taliad y mae'n rhaid i ni ei godi yn erbyn y dreth gyngor yn seiliedig ar yr arian parod sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ôl-gyflogaeth/buddiannau ymddeol ei gwrthdroi o Gronfa'r Heddlu drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Heddlu drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Buddiannau Disgresiwn nas Ariennir	Cynllun Pensiwn **2018-19** £000	Trefniadau Buddiannau Disgresiwn **2018-19** £000	Cyfanswm **2018-19** £000	Cynllun Pensiwn **2017-18** £000	Trefniadau Buddiannau Disgresiwn **2017-18** £000	Cyfanswm **2017-18** £000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr						
Cost Gwasanaethau:						
- Cost gwasanaeth cyfredol	19,200	0	**19,200**	17,460	0	**17,460**
- Costau gwasanaeth a roddwyd	7,136	0	**7,136**	120	10	**130**
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi						
- Llog ar rwymedigaethau/(asedau) buddiannau diffiniedig net	3,490	0	**3,490**	3,390	40	**3,430**
Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	**29,826**	**0**	**29,826**	**20,970**	**50**	**21,020**
Buddiannau Ôl-gyflogaeth Eraill a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall						
- Elw o asedau'r cynllun (uwchlaw)/islaw'r hyn a gydnabuwyd mewn llog net	(23,820)	0	**(23,820)**	(7,460)	0	**(7,460)**
- (Enillion)/colledion actiwaraidd:						
Oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau arianno	21,150	0	**21,150**	0	0	**0**
Oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau demogr	(19,290)	0	**(19,290)**	0	0	**0**
Oherwydd profiad o ran rhwymedigaeth	750	0	**750**	1,770	(50)	**1,720**
Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	**(21,210)**	**0**	**(21,210)**	**(5,690)**	**(50)**	**(5,740)**
Cyfanswm a Gydnabuwyd	**8,616**	**0**	**8,616**	**15,280**	**0**	**15,280**
Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn						
- Gwrthdroi taliadau net a wnaed i Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod	**(29,826)**	**0**	**(29,826)**	**(20,970)**	**(50)**	**(21,020)**
Y swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans Cronfa'r Heddlu mewn perthynas â phensiynau yn y flwyddyn:						
- Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun (nodyn 1)	11,633	0	**11,633**	10,912	0	**10,912**
- Buddiannau ymddeol sy'n daladwy i bensiynwyr	0	0	**0**	0	0	**0**

Asedau a rhwymedigaethau mewn perthynas â Buddiannau Ôl-gyflogaeth						
Cysoni gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun (**rhwymedigaeth** buddiannau diffiniedig):	Cynllun Pensiwn a Ariennir	Buddiannau Disgresiwn nas Ariennir	Cyfanswm	Cynllun Pensiwn a Ariennir	Buddiannau Disgresiwn nas Ariennir	Cyfanswm
	2018-19	**2018-19**	**2018-19**	**2017-18**	**2017-18**	**2017-18**
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	(461,270)	(1,400)	**(462,670)**	(435,430)	(1,490)	**(436,920)**
Cost gwasanaeth cyfredol	(19,200)	0	**(19,200)**	(17,460)	0	**(17,460)**
Cost llog	(11,930)	(40)	**(11,970)**	(11,260)	(40)	**(11,300)**
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	(4,170)	0	**(4,170)**	(3,820)	0	**(3,820)**
Buddiannau a dalwyd	9,050	90	**9,140**	8,590	90	**8,680**
Costau gwasanaeth a roddwyd	(7,136)	0	**(7,136)**	(120)	(10)	**(130)**
Oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	(21,150)	(20)	**(21,170)**	0	0	**0**
Oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	19,290	60	**19,350**	0	0	**0**
Oherwydd profiad o ran rhwymedigaeth	(750)	(10)	**(760)**	(1,770)	50	**(1,720)**
Balans wrth gau ar 31 Mawrth	**(497,266)**	**(1,320)**	**(498,586)**	**(461,270)**	**(1,400)**	**(462,670)**

Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	**2018-19** £000	**2017-18** £000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	321,090	299,640
Incwm o'r llog ar asedau	8,440	7,870
Enillion/(colledion) ail-fesur ar asedau	23,820	7,460
Cyfraniadau'r cyflogwr	11,780	10,890
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	4,170	3,820
Buddiannau a dalwyd	(9,050)	(8,590)
Balans wrth gau ar 31 Mawrth	**360,250**	**321,090**

Hanes y Cynllun	**2018-19** £000	**2017-18** £000	**2016-17** £000	**2015-16** £000	**2014-15** £000
Gwerth presennol rhwymedigaethau:					
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	(497,266)	(461,270)	(435,430)	(349,300)	(357,700)
Buddiannau Disgresiwn	(1,320)	(1,400)	(1,490)	(1,440)	(1,570)
Gwerth teg asedau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	360,250	321,090	299,640	245,430	235,280
Cyfanswm	**(138,336)**	**(141,580)**	**(137,280)**	**(105,310)**	**(123,990)**
Gwarged/(diffyg) yn y cynllun:					
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	(137,016)	(140,180)	(135,790)	(103,870)	(122,420)
Buddiannau Disgresiwn	(1,320)	(1,400)	(1,490)	(1,440)	(1,570)
Cyfanswm	**(138,336)**	**(141,580)**	**(137,280)**	**(105,310)**	**(123,990)**

Mae'r rhwymedigaethau'n dangos ymrwymiadau sylfaenol sydd gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn yr hirdymor i dalu buddiannau (ymddeol) ôl-gyflogaeth. Mae cyfanswm y rhwymedigaeth, sef £138.3m, yn cael effaith sylweddol ar werth net Heddlu De Cymru/y Comisiynydd fel y'i cofnodwyd yn y Fantolen, gan arwain at falans cyffredinol negyddol. Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn dal i fod yn iach:

- gwneir iawn am y diffyg yn y cynllun llywodraeth leol drwy gynyddu cyfraniadau dros oes gweithio cyflogeion sy'n weddill (h.y. cyn bod taliadau yn mynd yn ddyledus), fel y'i haseswyd gan actiwari'r cynllun;
- dim ond er mwyn talu buddiannau a ddyfernir yn ôl disgresiwn pan gaiff y pensiynau eu talu y bydd angen cyllid.

Sail dros Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn

dibynnu ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflog ac ati. Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a rhwymedigaethau Buddiannau yn ôl Disgresiwn wedi cael eu hasesu gan Aon Hewitt Limited, sef cwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae amcangyfrifon ar gyfer Cronfa'r Cyngor Sir yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2016.

Nodir y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yn y tabl canlynol:

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	Cynllun Pensiwn **2018-19**	Buddiannau Disgresiwn **2018-19**	Cynllun Pensiwn **2017-18**	Buddiannau Disgresiwn **2017-18**
Rhagdybiaethau ynglŷn â marwolaethau:				
Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr presennol:				
- Dynion	22.2	22.2	22.9	22.9
- Merched	24.1	24.1	25.0	25.0
Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol:				
- Dynion	23.9		25.1	
- Merched	25.9		27.3	
Prif Ragdybiaethau Ariannol:				
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	3.4%		3.3%	
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau	2.1%	2.1%	2.0%	2.0%
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	2.5%	2.5%	2.6%	2.6%
Nifer sydd wedi dewis yr opsiwn i droi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad ar ôl ymddeol:				
- hawliadau pensiwn cyn 1 Ebrill 2010	75%		75%	-
- hawliadau pensiwn cyn 31 Mawrth 2010	75%		75%	-

Dyrannu Asedau

Dangosir brasamcan o'r modd y mae asedau'r Gronfa wedi'u rhannu (yn seiliedig ar ddata a gyflenwyd gan yr Actiwari a'r Awdurdod sy'n Gweinyddu'r Gronfa) yn y tabl isod.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	**31 Mawrth 2019 %**	**31 Mawrth 2018 %**
Buddsoddiadau Ecwiti	64.50%	74.8%
Eiddo	6.90%	5.4%
Bondiau'r Llywodraeth	13.50%	8.5%
Bondiau Corfforaethol	11.60%	9.4%
Arian Parod ac Asedau eraill	3.50%	1.9%
	100.0%	**100.0%**

Cyfraniadau ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020

Amcangyfrifir y bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniadau rheolaidd o £12.35m i'r Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020. Efallai y bydd cyfraniadau ychwanegol yn ddyledus hefyd mewn perthynas ag unrhyw fuddiannau yn y Gronfa y bydd y cyflogwr yn penderfynu eu rhoi i aelodau yn ôl disgresiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu nesaf.

Nodyn 13 Cynlluniau Pensiwn Buddiannau Diffiniedig (parhad)

13.2 Cynllun Pensiwn yr Heddlu (ar gyfer Swyddogion yr Heddlu)

Mae hyn yn cynnwys cynlluniau pensiwn yr heddlu ar gyfer 1987, 2006 a 2015 ynghyd â'r cynllun budd-dal anafiadau.

Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy mewn gwirionedd nes bod cyflogeion yn ymddeol, mae gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd ymrwymiad i wneud y taliadau y mae angen eu datgelu ar yr adeg y mae cyflogeion yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn yr Heddlu, a weinyddir gan Capita plc. Cynllun buddiannau diffiniedig nas ariennir yw hwn, sy'n golygu nad oes unrhyw asedau buddsoddi ar gael i fodloni rhwymedigaethau pensiwn. Yn hytrach, o 1 Ebrill 2006, caiff taliadau pensiwn gwirioneddol eu talu drwy gyfuniad o gyfraniadau'r cyflogwr a chyfraniadau'r cyflogai, yn seiliedig ar ganrannau o gyflog yr heddlu, a'r balans o ran Grant y Llywodraeth.
- Buddiannau yn ôl disgresiwn ar ôl ymddeol yn gynnar. Trefniant buddiannau diffiniedig nas ariennir yw hwn a chaiff rhwymedigaethau eu cydnabod pan ddyfernir y buddiannau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw asedau buddsoddi ar gael i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn hyn, ac mae'n rhaid i arian parod gael ei gynhyrchu er mwyn talu'r taliadau pensiwn gwirioneddol wrth iddynt ddod yn ddyledus yn y pen draw.

Trafodion sy'n Ymwneud â Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan gyflogeion, yn hytrach na phan delir y buddiannau ar ffurf pensiynau yn y pen draw. Mae model meddalwedd, a ddatblygwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth, wedi'i ddefnyddio i gyfrifo rhwymedigaeth hirdymor posibl a chostau amcangyfrifedig cynllun yr Heddlu yn seiliedig ar adolygiad Actiwaraidd, gan ddefnyddio data Pensiynau a'r Gyflogres.

Fodd bynnag, mae'r taliad y mae'n rhaid i ni ei godi yn erbyn y dreth gyngor yn seiliedig ar yr arian parod sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ôl-gyflogaeth/buddiannau ymddeol ei gwrthdroi o Gronfa'r Heddlu drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Heddlu drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Cynllun Pensiwn yr Heddlu a Budd-daliadau Anafiadau Nas Ariennir	Cynllun Pensiwn a Buddiannau Disgresiwn **2018-19** £000	Cyfanswm **2018-19** £000	Cynllun Pensiwn a Buddiannau Disgresiwn **2017-18** £000	Cyfanswm **2017-18** £000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Cost Gwasanaethau:				
- Cost gwasanaeth cyfredol	58,040	**58,040**	56,340	**56,340**
- Costau gwasanaeth a roddwyd	151,090	**151,090**	2,140	**2,140**
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi				
- Llog ar rwymedigaethau/(asedau) buddiannau diffiniedig net	83,400	**83,400**	86,600	**86,600**
Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	**292,530**	**292,530**	**145,080**	**145,080**
Buddiannau Ôl-gyflogaeth Eraill a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				
- (Enillion)/colledion actiwaraidd:				
Oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	98,640	**98,640**	104,210	**104,210**
Oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	0	**0**	(110,130)	**(110,130)**
Oherwydd profiad o ran rhwymedigaeth	(9,080)	**(9,080)**	(57,270)	**(57,270)**
Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	**89,560**	**89,560**	**(63,190)**	**(63,190)**
Cyfanswm a Gydnabuwyd	**382,090**	**382,090**	**81,890**	**81,890**
Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn				
- Gwrthdroi taliadau net a wnaed i Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod	**(292,530)**	**(292,530)**	**(145,080)**	**(145,080)**
Y swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans Cronfa'r Heddlu mewn perthynas â phensiynau yn y flwyddyn:				
- Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun	25,721	**25,721**	25,059	**25,059**
- Buddiannau ymddeol sy'n daladwy i bensiynwyr (arian grant)	0	**0**	0	**0**

Asedau a Rhwymedigaethau mewn Perthynas â Buddiannau Ôl-gyflogaeth				
Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig):	Buddiannau Disgresiwn Nas Ariennir **2018-19** £000	Cyfanswm **2018-19** £000	Buddiannau Disgresiwn Nas Ariennir **2017-18** £000	Cyfanswm **2017-18** £000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	(3,279,990)	**(3,279,990)**	(3,279,390)	**(3,279,390)**
Cost gwasanaeth cyfredol	(58,040)	**(58,040)**	(56,340)	**(56,340)**
Cost gwasanaeth a roddwyd	(151,090)	**(151,090)**	(2,140)	**(2,140)**
Cost llog	(83,400)	**(83,400)**	(86,600)	**(86,600)**
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	(14,340)	**(14,340)**	(13,960)	**(13,960)**
Enillion a (cholledion) actiwaraidd	(89,560)	**(89,560)**	63,190	**63,190**
Buddiannau a dalwyd	91,500	**91,500**	95,250	**95,250**
Balans wrth gau ar 31 Mawrth	**(3,584,920)**	**(3,584,920)**	**(3,279,990)**	**(3,279,990)**

Mae'r rhwymedigaethau'n dangos ymrwymiadau sylfaenol sydd gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn yr hirdymor i dalu buddiannau (ymddeol) ôl-gyflogaeth. Mae cyfanswm y rhwymedigaeth, sef £3.58b, yn cael effaith sylweddol ar werth net Heddlu De Cymru/y Comisiynydd fel y'i cofnodwyd yn y Fantolen, gan arwain at falans cyffredinol negyddol. Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn dal i fod yn iach:

- gwneir iawn am y diffyg yng nghynllun pensiwn yr heddlu drwy grant y llywodraeth a/neu drwy gynyddu cyfraniadau dros oes gweithio cyflogeion sy'n weddill (h.y. cyn bod taliadau yn mynd yn ddyledus), fel y'i haseswyd gan y llywodraeth ac actiwari'r cynllun;
- dim ond er mwyn talu buddiannau a ddyfernir yn ôl disgresiwn pan gaiff y pensiynau eu talu y bydd angen dod o hyd i arian.
-

Sail dros Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflog ac ati. Mae Cynllun Pensiwn yr Heddlu a rhwymedigaethau Buddiannau Disgresiwn wedi cael eu hasesu gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD), un o asiantaethau Llywodraeth y DU, gan ddefnyddio data'r gyflogres a data ar bensiynau a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd neu ar ei ran.

Nodir y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yn y tabl canlynol:

Cynllun Pensiwn yr Heddlu a Budd-daliadau Anafiadau Nas Ariennir	Cynllun Pensiwn a Buddiannau Disgresiwn **2018-19**	Cynllun Pensiwn a Buddiannau Disgresiwn **2017-18**
Rhagdybiaethau ynglŷn â marwolaethau:		
Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr presennol:		
- Dynion	22.7	22.6
- Merched	24.3	24.2
Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol:		
- Dynion	24.6	24.5
- Merched	26.2	26.1
Prif Ragdybiaethau Ariannol:		
Cyfradd RPI chwyddiant	2.45%	2.55%
Cyfradd CPI chwyddiant	2.35%	2.30%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	4.35%	4.30%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau	2.35%	2.30%
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	2.55%	2.55%
Cyfradd elw tybiedig uwchlaw pensiynau	0.10%	0.25%
Cyfradd elw tybiedig uwchlaw enillion	-1.80%	-1.75%
Nifer sydd wedi dewis yr opsiwn i droi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad ar ôl ymddeol	niwtral o safbwynt actiwaraidd	niwtral o safbwynt actiwaraidd

Cyfraniadau ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020

Amcangyfrifir y bydd y Cyflogwr yn gwneud cyfraniadau rheolaidd o £39.4m i'r Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020.
Bydd nifer yr aelodau yn y cynlluniau pensiwn gwahanol yn amrywio o'r rheini a amcangyfrifwyd. Bydd cyfraniadau'r cyflogwr yn newid oherwydd y gwahaniaeth rhwng y niferoedd a amcangyfrifwyd a'r niferoedd gwirioneddol. Bydd budd-daliadau anafiadau hefyd yn amrywio oherwydd materion yn ymwneud â marwolaethau a gall aelodau ychwanegol gael eu derbyn i'r cynllun Budd-daliadau Anafiadau. Mae'n anodd rhagweld y ffactorau hyn.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Nodyn 14 Cydweithio

Mae gan heddluoedd yng Nghymru hanes llwyddiannus hir o gydweithio i ddatblygu meysydd plismona arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys y rhai o dan gylch gwaith Cyd-bwyllgor Awdurdodau Heddlu Cymru gynt. Caiff cydweithio yn y dyfodol ei sbarduno gan yr angen i fodloni'r Gofyniad Plismona Strategol a chan ganlyniadau'r Asesiad Strategol Rhanbarthol o fygythiadau, risgiau a niwed i ranbarth deheuol Cymru.

Bydd Comisiynydd Heddlu a Throseddu pob Heddlu yn gyfrifol am sicrhau bod y Gofyniad Plismona Strategol yn cael ei fodloni. Fel rhan o hyn, byddant yn ceisio cydweithio â'r Comisiynwyr a'r Heddluoedd eraill i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol posibl. Caiff cytundebau o'r fath eu rheoleiddio gan Adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.
Mae'r gwasanaethau cydweithio a'u cyllid yn parhau o dan drefniadau llywodraethu diwygiedig i'r Comisiynwyr a'r Heddluoedd. Ystyrir y rhain yn gyllidebau cyfunol i bob diben, gyda chytundebau ar gyfer cyfraniadau cyllido yn cael eu gwneud a'u hamrywio o bryd i'w gilydd, a rhai grantiau penodol gan y Llywodraeth. Mae'r cyllidebau cyfunol yn cael eu cynnal i bob diben gan y Comisiynydd a Heddlu De Cymru ar ran y pedwar Heddlu yng Nghymru.

Yn 2017/18 cafodd Tîm Cydweithio Cymru Gyfan ei sefydlu ar sail fyrdymor er mwyn cydlynu gweithgareddau presennol a nodi cyfleoedd newydd i gydweithio rhwng y pedwar heddlu yng Nghymru. Y Dirprwy Brif Gwnstabl sy'n arwain y tîm a chaiff ei ariannu ar sail cyfraniadau cytûn gan bob heddlu yng Nghymru. Cyfanswm costau'r tîm yn 2018/19 oedd £0.40m (2017/18 – £0.24m) a chyfraniad Heddlu De Cymru at y costau hyn oedd £0.12m yn 2018/19 (2017/18 – £0.06m).

Mae'r tabl cyntaf isod yn rhoi crynodeb o'r Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer prif weithgareddau'r unedau cydweithio yn seiliedig ar yr arian y mae pob Heddlu yn ei gyfrannu at y trefniant cydweithio.

Yn y polisïau cyfrifyddu o dan drefniadau ar y cyd, ceir diffiniadau ac esboniad o'r gofynion cyfrifyddu newydd ar gyfer cyd-ymgyrchoedd. Mae'r olaf ohonynt yn cynnwys cyfran yr incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau. O ganlyniad i ofynion IFRS 11, mae'r ail dabl isod yn darparu gwybodaeth ddiwygiedig mewn perthynas â Heddlu De Cymru a heddluoedd eraill er mwyn dangos y cyfansymiau ar gyfer pob cyd-ymgyrch.

O ganlyniad i ofynion IFRS 11, mae gwariant gros yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi'i leihau £11.62M. Mae trosglwyddiadau o fewn y grŵp wedi'u lleihau i'r un graddau er mwyn sicrhau mai cyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a nodir yn y Datganiad yw dim. Rhoddir esboniad pellach o'r addasiadau sydd eu hangen ar gyfer cydweithredu yn Natganiad o Gyfrifon y Grŵp yn nodyn 33.

Mae asedau, dyledwyr a chredydwyr mewn perthynas â'r trefniadau wedi parhau i gael eu nodi ym mantolenni heddluoedd ar sail eu perthnasedd.

**Mae Heddlu Gogledd Cymru yn seilio ei gostau Swyddi Diogelwch Penodol ar incwm a gwariant yn hytrach na dyraniad ar sail poblogaeth Cymru. Nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Tasglu Rhanbarthol, sy'n gweithredu yn Heddluoedd y Rhanbarth Deheuol. O ran yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol, mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu at Ranbarth Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.*

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

2018/19										
MAES GWASANAETH CYDWEITHIO	Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth	Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol	Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/Penodol	Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol	Tasglu Rhanbarthol	Is-adran Gwasanaethau Digidol	Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd	Uned Ymchwilio Gwyddonol	Uned Arfau Tanio ar y Cyd	**Cyfanswm**
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	**£000**
Gwariant ar gyflogau	7,541	428	3,805	4,855	1,720	3,813	1,258	5,317	11,480	**40,217**
Gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau	1,644	46	380	2,333	575	423	33	546	1,656	**7,636**
Gwariant Gros	**9,185**	**474**	**4,185**	**7,188**	**2,295**	**4,236**	**1,291**	**5,863**	**13,136**	**47,853**
Incwm Grantiau Penodol	**(9,146)**	**(474)**	**(4,159)**	**(3,787)**	**0**	**0**	**0**	**0**	**(1,167)**	**(18,733)**
Incwm	**(39)**	**0**	**(26)**	**(1,512)**	**(20)**	**2**	**0**	**(11)**	**(245)**	**(1,851)**
Cyfanswm Incwm a Grantiau	**(9,185)**	**(474)**	**(4,185)**	**(5,299)**	**(20)**	**2**	**0**	**(11)**	**(1,412)**	**(20,584)**
Heddlu De Cymru	0	0	0	(1,014)	(1,221)	(2,859)	(1,072)	(3,915)	(5,478)	**(15,559)**
Heddlu Dyfed Powys	0	0	0	(384)	(463)	0	0	0	(3,333)	**(4,180)**
Heddlu Gwent	0	0	0	(491)	(591)	(1,379)	(219)	(1,937)	(2,913)	**(7,530)**
Heddlu Gogledd Cymru	0	0	0	0	0	0	0	0	0	**0**
Cyfraniadau'r Heddlu	**0**	**0**	**0**	**(1,889)**	**(2,275)**	**(4,238)**	**(1,291)**	**(5,852)**	**(11,724)**	**(27,269)**
(Gwarged) neu Ddiffyg	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**

2017/18										
MAES GWASANAETH CYDWEITHIO	Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth	Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol	Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/Penodol	Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol	Tasglu Rhanbarthol	Cangen Gwrthderfysgaeth Arbennig	Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd	Uned Ymchwilio Gwyddonol	Uned Arfau Tanio ar y Cyd (gan gynnwys CTSFO)	**Cyfanswm**
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	**£000**
Gwariant ar gyflogau	5,574	425	4,356	4,793	1,554	0	1,217	5,122	11,292	**34,333**
Gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau	1,142	30	285	1,201	411	0	26	431	1,568	**5,094**
Gwariant Gros	**6,716**	**455**	**4,641**	**5,994**	**1,965**	**0**	**1,243**	**5,553**	**12,860**	**39,427**
Incwm Grantiau Penodol	(6,772)	(455)	(4,641)	(4,320)	(500)	0	0	0	(1,473)	**(18,161)**
Incwm	56	0	0	(43)	(2)	0	(6)	(0)	(163)	**(158)**
Cyfanswm Incwm a Grantiau	**(6,716)**	**(455)**	**(4,641)**	**(4,363)**	**(502)**	**0**	**(6)**	**0**	**(1,636)**	**(18,319)**
Heddlu De Cymru	0	0	0	(889)	(785)	0	(786)	(3,788)	(5,173)	**(11,421)**
Heddlu Dyfed Powys	0	0	0	(348)	(298)	0	0	0	(3,457)	**(4,103)**
Heddlu Gwent	0	0	0	(394)	(380)	0	(451)	(1,765)	(2,594)	**(5,584)**
Heddlu Gogledd Cymru	0	0	0	0	0	0	0	0	0	**0**
Cyfraniadau'r Heddlu	**0**	**0**	**0**	**(1,631)**	**(1,463)**	**0**	**(1,237)**	**(5,553)**	**(11,224)**	**(21,108)**
(Gwarged) neu Ddiffyg	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

2018/19										
CYFRAN O WAITH CYDWEITHIO'R GWASANAETH	Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth	Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol	Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/Penodol	Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol	Tasglu Rhanbarthol	Is-adran Gwasanaethau Digidol	Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd	Uned Ymchwilio Gwyddonol	Uned Arfau Tanio ar y Cyd	**Cyfanswm**
Cyfran o fudd y gwasanaeth	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Cyfraniad ariannol cytûn (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol cytûn (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol cytûn (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol cytûn (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol cytûn (darpariaeth leol)	
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	**£000**
Gwariant Gros										
Heddlu De Cymru	3,893	201	1,049	3,920	1,232	2,754	861	4,021	5,919	**23,850**
Heddlu Dyfed Powys	1,519	78	409	1,529	467	0	0	0	4,084	**8,086**
Heddlu Gwent	1,727	89	465	1,739	596	1,482	430	1,842	3,133	**11,503**
Heddlu Gogledd Cymru	2,046	106	2,262	0	0	0	0	0	0	**4,414**
	9,185	**474**	**4,185**	**7,188**	**2,295**	**4,236**	**1,291**	**5,863**	**13,136**	**47,853**
Cyfanswm Incwm a Grantiau										
Heddlu De Cymru	(3,893)	(201)	(1,049)	(2,889)	(10)	1	0	(8)	(636)	**(8,685)**
Heddlu Dyfed Powys	(1,519)	(78)	(409)	(1,127)	(4)	0	0	0	(439)	**(3,576)**
Heddlu Gwent	(1,727)	(89)	(465)	(1,282)	(6)	1	0	(3)	(337)	**(3,908)**
Heddlu Gogledd Cymru	(2,046)	(106)	(2,262)	0	0	0	0	0	0	**(4,414)**
	(9,185)	**(474)**	**(4,185)**	**(5,299)**	**(20)**	**2**	**0**	**(11)**	**(1,412)**	**(20,584)**

2017/18										
CYFRAN O WAITH CYDWEITHIO'R GWASANAETH	Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth	Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol	Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/Penodol	Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol	Tasglu Rhanbarthol	Is-adran Gwasanaethau Digidol	Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd	Uned Ymchwilio Gwyddonol	Uned Arfau Tanio ar y Cyd	**Cyfanswm**
Cyfran o fudd y gwasanaeth	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Cyfraniad ariannol cytûn (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol cytûn (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol cytûn (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol cytûn (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol cytûn (darpariaeth leol)	
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	**£000**
Gwariant Gros										
Heddlu De Cymru	2,842	193	1,206	3,266	1,055	0	829	3,808	5,795	**18,994**
Heddlu Dyfed Powys	1,113	75	472	1,279	400	0	0	0	3,998	**7,337**
Heddlu Gwent	1,260	85	535	1,449	510	0	414	1,745	3,067	**9,065**
Heddlu Gogledd Cymru	1,501	102	2,428	0	0	0	0	0	0	**4,031**
	6,716	**455**	**4,641**	**5,994**	**1,965**	**0**	**1,243**	**5,553**	**12,860**	**39,427**
Cyfanswm Incwm a Grantiau										
Heddlu De Cymru	(2,842)	(193)	(1,206)	(2,378)	(270)	0	(4)	0	(737)	**(7,630)**
Heddlu Dyfed Powys	(1,113)	(75)	(472)	(931)	(102)	0	0	0	(509)	**(3,202)**
Heddlu Gwent	(1,260)	(85)	(535)	(1,054)	(130)	0	(2)	0	(390)	**(3,456)**
Heddlu Gogledd Cymru	(1,501)	(102)	(2,428)	0	0	0	0	0	0	**(4,031)**
	(6,716)	**(455)**	**(4,641)**	**(4,363)**	**(502)**	**0**	**(6)**	**0**	**(1,636)**	**(18,319)**

RHESTR TERMAU

AMORTEIDDIO
Dylai asedau anniriaethol gael eu hamorteiddio ar sail systematig dros eu hoes economaidd. Mae hyn yn debyg i ddibrisiant.

ARCHWILIO
Archwiliad annibynnol o weithgareddau sefydliad.

ARDRETH ANNOMESTIG CENEDLAETHOL
Yr Ardreth Annomestig Cenedlaethol, neu'r ardreth busnes, yw'r tâl a godir ar ddeiliaid eiddo busnes er mwyn ariannu cyfran o wariant refeniw Llywodraeth Leol a'r Heddlu. Caiff swm yr ardreth ei bennu gan Lywodraeth Ganolog drwy gyfrwng lluosydd a gymhwysir at werthoedd ardrethol. Mae'r lluosydd yn gyson ledled Cymru a chaiff y cyfanswm a gesglir ei ddosbarthu gan Lywodraeth Ganolog, ond ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru.

ASED
Asedau diriaethol ac anniriaethol sy'n dod â buddiannau i Heddlu De Cymru/y Comisiynydd am gyfnod o fwy na blwyddyn. Caiff buddiannau sy'n para am lai na blwyddyn eu hystyried yn asedau cyfredol.

BENTHYCIADAU/BUDDSODDIADAU DROS DRO
Arian a fenthycir/a fuddsoddir am gyfnod cychwynnol o lai na blwyddyn.

BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS
Un o asiantaethau'r Llywodraeth sy'n darparu benthyciadau tymor hwy i Awdurdodau Lleol ar gyfraddau llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rhai y gall y llywodraeth ei hun eu benthyca.

COST GWASANAETH A RODDWYD (PENSIYNAU)
Y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun sy'n ymwneud â gwasanaeth cyflogai mewn cyfnodau blaenorol sy'n codi yn y cyfnod cyfredol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeol.

COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)
Y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn a ddisgwylir o wasanaeth cyflogeion yn y cyfnod cyfredol.

CREDYDWR
Swm sy'n ddyledus gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd ar gyfer gwaith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a ddarparwyd yn ystod y cyfnod cyfrifyddu, ond nad oes taliad wedi'i wneud mewn perthynas â nhw eto.

CRONFA DERBYNIADAU CYFALAF WRTH GEFN
Diben y gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn yw ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol, yn unol â chyllideb y Rhaglen Gyfalaf.

CRONFA WRTH GEFN
Symiau a neilltuir at ddibenion nad ydynt yn dod o dan y diffiniad o ddarpariaethau ac sydd ar gael, yn gyffredinol, ar gyfer ariannu gwariant ar ôl dyddiad y fantolen. Caiff cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd eu neilltuo at ddibenion penodol.

RHESTR TERMAU

CRONFA'R HEDDLU
Caiff y gronfa wrth gefn hon ei chynnal er mwyn talu am wariant eithriadol a gwariant nas rhagwelir.

CRONFEYDD CYFALAF WRTH GEFN A GLUSTNODWYD
Diben y cronfeydd wrth gefn hyn, a gynhyrchir gan gyfraniadau refeniw gwirfoddol ychwanegol, yw ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol, yn unol â chyllideb y Rhaglen Gyfalaf.

CRONIAD
Swm a gaiff ei gynnwys yn y cyfrifon terfynol i gwmpasu'r incwm a'r gwariant y gellir eu priodoli i gyfnod y cyfrifon ond nad oes taliad wedi'i wneud/wedi'i dderbyn ar ei gyfer ar ddyddiad y fantolen.

CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF
Mae'r cyfrif addasiadau cyfalaf yn cynnwys y symiau y mae'n ofynnol eu neilltuo, yn ôl statud, o dderbyniadau cyfalaf ar gyfer ad-dalu benthyciadau allanol a swm y gwariant cyfalaf a ariennir gan grantiau, refeniw a derbyniadau cyfalaf. Mae hefyd yn cynnwys y gwahaniaeth rhwng symiau a ddarperir ar gyfer dibrisiant a'r swm y mae angen ei godi ar refeniw i ad-dalu prif elfen benthyciadau allanol.

CYFRIF REFENIW/CYFRIF INCWM A GWARIANT
Cyfrif sy'n cofnodi incwm a gwariant o ddydd i ddydd ar eitemau fel cyflogau, y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau ac ariannu gwariant cyfalaf.

DARPARIAETH
Swm a neilltuir yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau yr aethpwyd iddynt, pan fo amseru neu swm y rhwymedigaethau hynny yn ansicr.

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD
Datganiad sy'n crynhoi'r symudiadau mewn arian parod, refeniw a chyfalaf, yn ystod y flwyddyn.

DERBYNIAD CYFALAF
Elw o werthu asedau sefydlog (e.e. tir neu adeiladau, neu arian arall a dderbynnir tuag at wariant cyfalaf).

DIBRISIANT
Mesur cost neu swm wedi'i ailbrisio buddiannau'r ased anghyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod. Mae defnydd yn cynnwys treulio ased sefydlog, ei ddefnyddio neu leihad yn ei oes ddefnyddiol p'un a yw hynny'n codi o ddefnydd, am fod amser wedi mynd heibio neu anarferiant drwy newidiadau mewn technoleg neu'r galw am y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchwyd gan yr ased.

DYLEDWR
Swm sy'n ddyledus i Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn ystod y cyfnod cyfrifyddu, ond nad yw wedi'i dderbyn ar ddyddiad y fantolen.

ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARAIDD
Gall newidiadau mewn diffygion neu wargedau actiwaraidd godi oherwydd enillion a cholledion profiad (nid yw digwyddiadau yn unol â'r rhagdybiaethau actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf) neu newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd.
GRANT CYFALAF YR HEDDLU

RHESTR TERMAU

Swm grant y Swyddfa Gartref sy'n cyfrannu tuag at dalu am wariant cyfalaf Heddlu De Cymru/y Comisiynydd.

GRANT CYNNAL REFENIW
Grant a weinyddir gan Lywodraeth Cymru a delir i gefnogi gwariant refeniw Llywodraeth Leol a'r Heddlu.

GRANT YR HEDDLU
Swm grant y Swyddfa Gartref sy'n cyfrannu tuag at fodloni gofynion refeniw Heddlu De Cymru/y Comisiynydd.

GWARIANT CYFALAF
Gwariant ar gaffael ased sefydlog neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog presennol, yn hytrach na'i gynnal yn unig.

GWASANAETHAU ASIANTAETH
Gwasanaethau a ddarperir gan un corff (yr asiantaeth) ar ran y corff cyfrifol, ac a ad-delir yn gyffredinol gan y corff hwnnw.

GWERTH CYFREDOL
Gwerth cyfredol ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodyn hyd braich, llai, lle y bo'n gymwys, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

LLEIHAD MEWN GWERTH
Lleihad yng ngwerth ased sefydlog, islaw ei swm cario yn y fantolen.

MANTOLEN
Datganiad o asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill a gofnodwyd ar y dyddiad a nodwyd.

PRAESEPT
Swm yr incwm a gesglir gan Gynghorau Bwrdeistref Sirol cyfansoddol gan dalwyr y dreth gyngor i dalu am wasanaethau Heddlu De Cymru/y Comisiynydd.

PRYDLESU
Dull o ariannu'r asedau a ddefnyddir lle y caiff tâl prydles ei dalu dros gyfnod penodol o amser.

RHESTRAU EIDDO (STOCIAU)
Iwnifformau, rhannau ar gyfer cyfarpar cyfathrebu, diesel, petrol a rhannau ar gyfer cerbydau a gaffaelir gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd i'w defnyddio ar sail barhaus. Caiff gwerth yr eitemau hynny na chânt eu defnyddio ar y dyddiad penodol ei ddangos fel asedau yn y fantolen.

RHWYMEDIGAETH
Swm sy'n ddyledus i unigolyn neu sefydliad a gaiff ei dalu rywbryd yn y dyfodol.